Canllawiau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Trwyddedu Mandadol
ar gyfer Triniaethau Arbennig

# Canllawiau i Ymgeiswyr am Drwydded Triniaeth Arbennig, ac i Ddeiliaid Trwydded:

## Tyllu'r Corff (gan gynnwys tyllu clustiau)

Ionawr 2025

# Cynnwys


1. Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn 1

2. Cefndir 2

3. Sut i wneud cais am drwydded triniaeth arbennig 3

  3.1 A oes angen trwydded triniaeth arbennig arnaf? 3

  3.2 Cyn gwneud cais 4

  3.3 Y cais 4

  3.4 Tra bod y cais yn cael ei adolygu 5

  3.5 Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio 5

  3.6 Os cymeradwyir eich cais 6

  3.7 Os dywedir wrthych na all eich cais fynd yn ei flaen 6

  3.8 Os gwrthodir eich cais 6

  3.9 Y broses apelio (drwy'r llysoedd) 7

4. Sut i amrywio neu adnewyddu eich trwydded triniaeth arbennig 8

  4.1 Sut i amrywio eich trwydded triniaeth arbennig 8

  4.2 Sut i adnewyddu eich trwydded triniaeth arbennig 9

5. Trwyddedau triniaeth arbennig dros dro 10

6. Amodau trwyddedu mandadol: amodau cyffredinol 11

7. Amodau trwyddedu mandadol: tyllu'r corff 27


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51240, ISBN digidol 978-1-83715-480-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

8. Pwerau awdurdodau lleol, troseddau a gorfodi 30

8.1 Pwerau awdurdodau lleol 30

8.2 Troseddau 32

8.3 Camau gweithredu sydd ar gael i awdurdodau lleol lle nodir troseddau 33


**Atodiadau:**


Atodiad 1: Unigolion sydd wedi eu hesemptio 35

Atodiad 2: Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio 39

Atodiad 3: Ymgynghori â Chleient 41

Atodiad 4: Rheoli Ymgynghori â Chleient 47

Atodiad 5: Ymgynghoriad â chleient: cofnod o'r canlyniad 51

Atodiad 6: Taflen Ôl-ofal Tyllu'r Corff 53

Taflen Ôl-ofal rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff 55

Atodiad 7: Templed ar gyfer cofrestr ddigwyddiadau 57

Pennod 1

# Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

## 1.1 Diben y canllawiau hyn

Mae canllawiau'r Cynllun Trwyddedu Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y canlynol:

- gofynion y cynllun trwyddedu,
- y broses o wneud cais am drwydded triniaeth arbennig,
- sut i gydymffurfio ag amodau'r drwydded, a'r
- pwerau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau lleol.

Mae'r canllawiau hyn yn benodol ar gyfer yr unigolion hynny sy'n rhoi neu'n bwriadu rhoi triniaeth tyllu'r corff a ddiffinnir yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 fel:

> *"Gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i (a) emwaith, neu (b) i wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Mae'r cyfeiriad at wneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn mewn unrhyw ffordd ... [yn cynnwys] ... (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad".*

Bwriedir i'r canllawiau hyn gael eu defnyddio gan y canlynol:

- Pobl sy'n dymuno gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig.
- Pobl sy'n dymuno gwneud cais am drwydded triniaeth arbennig dros dro.
- Deiliaid trwydded a deiliaid trwydded dros dro.
- Swyddogion awdurdodau lleol.

Nod y canllawiau hyn yw cefnogi cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- **Rhan 4** o **Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017** ac **Atodlen 3** iddi.
- **Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbenning (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbenning) (Cymru) 2024**.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynhyrchu dogfen ddefnyddiol i gefnogi cydymffurfiaeth â'r cynllun trwyddedu yng Nghymru o safbwynt atal a rheoli heintiau, a gellir ei darllen ar y cyd â'r canllawiau hyn. Mae **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau (IP&C) ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru Iechyd Cyhoeddus Cymru** yn darparu gwybodaeth dechnegol am atal a rheoli heintiau a chyngor ymarferol ar sut y gellir cymhwyso'r mesurau hyn i driniaethau arbennig.

Pennod 2

# Cefndir

**Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf") y Cydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2017. Mae Rhan 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi (a ddaeth i rym ar 29 Tachwedd 2024) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyflwyno cynllun trwyddedu mandadol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru.**

Mae "triniaethau arbennig" yn driniaethau esthetig neu therapiwtig nad ydynt yn driniaethau llawfeddygol, sy'n cynnwys gwneud trydylliad ym meinwe, yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd rhywun a mewnblannu nodwyddau, gemwaith, gwrthrychau neu inc neu bigmentau parhaol/lled-barhaol, sy'n gallu achosi niwed i iechyd dynol ac a ddiffinnir yn y Ddeddf fel: aciwbigo (sy'n cynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (sy'n cynnwys colur lled-barhaol).

Mae effeithiau andwyol ar iechyd sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig wedi cael llawer o sylw ac yn parhau i gael eu hadrodd. Mae arferion hylendid gwael yn arwain at heintiau feirws a gludir yn y gwaed a heintiau croen bacteriol, gyda rhai ohonynt yn arwain at sepsis ac adweithiau alergaidd. Gwaethygwyd yr effeithiau iechyd hyn gan fframwaith rheoleiddio annigonol.

Ni fu rheolaethau deddfwriaethol blaenorol, drwy gynllun cofrestru gydag awdurdodau lleol, yn effeithiol o ran sicrhau dull cyson gan ymarferwyr triniaethau arbennig yng Nghymru i weithredu arferion gweithio diogel a chymhwyso mesurau atal a rheoli heintiau. Yn ogystal, roedd trefniadau gorfodi gan awdurdodau lleol ledled Cymru yn anghyson. Felly, roedd yr angen am gynllun trwyddedu mandadol cenedlaethol sy'n cymhwyso meini prawf ac amodau trwyddedu cenedlaethol cyffredin i sicrhau dull gorfodi cyffredin ledled Cymru, ac sy'n sicrhau bod safonau da o ran hylendid a rheoli heintiau yn cael eu cymhwyso i bob deiliad trwydded yn gwbl glir.

Ar 29 Tachwedd 2024, daeth y rheoliadau canlynol i rym i alluogi gweithredu'r cynllun trwyddedu o dan Ran 4 o'r Ddeddf ac Atodlen 3 iddi:

- **Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Pwyllgorau Trwyddedu Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024**.
- **Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Tyllu'r Corff (Triniaethau Arbennig) (Cymru) 2024**.

Ar yr un pryd, dyroddwyd **canllawiau statudol** o dan adran 66 o'r Ddeddf mewn perthynas ag:

- Asesu addasrwydd person i roi triniaeth arbennig yng Nghymru.

Mae'r canllawiau anstatudol hyn yn helpu i gefnogi deiliaid trwydded i gydymffurfio â gofynion y cynllun trwyddedu ac yn galluogi swyddogion awdurdodau lleol i fabwysiadu dull cyson o weithredu a gorfodi'r ddeddfwriaeth hon.

Pennod 3

# Sut i wneud cais am drwydded triniaeth arbennig

**Mae'r broses o wneud cais ac apelio a amlinellir isod yn berthnasol i drwydded triniaeth arbennig a thrwydded triniaeth arbennig dros dro. Ar ddiwedd y bennod hon, mae adran benodol sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar gyfer trwyddedau triniaeth arbennig dros dro.**

## 3.1 A oes angen trwydded triniaeth arbennig arnaf?

Os ydych yn dymuno rhoi triniaeth aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff (gan gynnwys tyllu clust), electrolysis neu datŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol) ar berson arall yng Nghymru, bydd angen trwydded triniaeth arbennig arnoch:

- os nad ydych wedi eich esemptio (gweler **Atodiad 1**)
- os ydych yn rhoi'r driniaeth/triniaethau arbennig fel rhan o fusnes
- os ydych yn brentis neu'n hyfforddai sy'n cael hyfforddiant 'yn y gwaith'
- os ydych yn rhoi triniaeth arbennig a bod yr awdurdod lleol wedi dynodi, o dan adran 61 o'r Ddeddf, fod angen trwydded arnoch.

Gallwch wneud cais am naill ai:

- Trwydded triniaeth arbennig sy'n ddilys am 3 blynedd, neu
- Drwydded triniaeth arbennig dros dro sy'n ddilys am ddim mwy na 7 diwrnod.

Y bwriad yw i'r gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig o dan adran 61 o'r Ddeddf fod yn gymwys i bobl sy'n gweithredu o'u cartrefi neu'n ymarfer ar ffrindiau neu bobl heb godi tâl lle mae gan yr awdurdod lleol bryderon bod y driniaeth arbennig yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol.

Os ydych yn byw y tu allan i Gymru ond yn dymuno rhoi triniaeth arbennig yng Nghymru, bydd angen i chi wneud cais i'r awdurdod lleol yng Nghymru lle byddwch yn gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith. Ni fydd rhaid i chi wneud cais i fwy nag un awdurdod lleol yng Nghymru.

Bydd eich trwydded triniaeth arbennig, pan gaiff ei dyroddi, yn eich galluogi i weithredu ledled Cymru cyn belled â bod y mangreoedd/cerbydau a gymeradwywyd wedi eu nodi ar eich trwydded. Bydd eich trwydded yn parhau i fod yn ddilys am dair blynedd. Ar ôl hynny, bydd rhaid i chi wneud cais am adnewyddiad.

Os gwneir cais am drwydded triniaeth arbennig dros dro, bydd y drwydded wedi ei chyfyngu i ddigwyddiad penodol a/neu amserlen o ddim mwy na 7 diwrnod. Yn achos trwyddedau am amser cyfyngedig, rhaid gwneud cais newydd ar gyfer pob digwyddiad ar wahân.

## 3.2 Cyn gwneud cais

- Rhaid i chi gwblhau a phasio'r **Dyfarniad Atal a Rheoli Heintiau Lefel 2** a reoleiddir ar gyfer ymarferwyr triniaethau arbennig;
- Rhaid i chi gael tystysgrif datgeliad sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Rhaid sicrhau nad oes mwy na thri mis wedi mynd heibio ers y dyddiad dyroddi. Bydd angen i ymgeiswyr o dramor gael tystysgrif cofnod troseddol tramor;
- Rhaid i chi gael copi o ddogfennau sy'n dangos pwy ydych chi a'ch dyddiad geni e.e. pasbort neu drwydded yrru;
- Byddwch angen llun pasbort lliw diweddar ohonoch chi'ch hun;
- Trefnwch eich polisi yswiriant, gan sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn cwmpasu'r canlynol:
  - y triniaethau arbennig rydych yn eu rhoi a'r lle/lleoedd y byddwch yn gweithio ohonynt;
  - NEU sicrhau eich bod wedi'ch cynnwys ym mholisi eich cyflogwr;
  - NEU sicrhau eich bod wedi'ch cynnwys yn y polisi sy'n cwmpasu'r fangre/busnes rydych yn gweithio ynddi neu ynddo;
- Byddwch yn ymwybodol nad oes rhaid i'r yswiriant fod ar waith adeg y cais ond ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr lofnodi datganiad yn y ffurflen gais y byddant yn cael yswiriant dilys mewn perthynas â'r driniaeth/triniaethau arbennig y maent yn bwriadu eu rhoi. Os oes gan yr ymgeisydd yswiriant, gellir ei gyflwyno gyda'r ffurflen gais;
- Gofalwch fod gennych ddigon o arian i dalu'r ffi ymgeisio, a
- Darllenwch y ffurflen gais yn ofalus, gan ei bod yn cynnwys nodiadau cyfarwyddyd manwl ar sut i gwblhau'r cais.

## 3.3 Y cais

- Rhaid i chi wneud cais am drwydded triniaeth arbennig i'r awdurdod lleol lle'r ydych yn gweithio, NEU'n gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith os ydych yn gweithio mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol.
- Gallwch wneud cais ar-lein drwy wefan eich awdurdod lleol neu lenwi copi papur.
- Llenwch y ffurflen gais gyfan gan ddefnyddio'r nodiadau cyfarwyddyd a'r rhestr wirio yn y ffurflen. Mae adran 3.5 o'r ffurflen gais yn gofyn am eich 'statws gwaith':
  - mae 'safle sefydlog' yn golygu eich bod yn gweithio o un fangre a gymeradwywyd yn unig,
  - mae 'symudol' yn golygu eich bod yn gweithio o un cerbyd a gymeradwywyd ond mewn lleoliadau gwahanol,
  - mae 'peripatetig' yn golygu eich bod yn gweithio o fwy nag un fangre a/neu gerbyd a gymeradwywyd, ac
  - mae 'dros dro' yn golygu eich bod yn gweithio am ddim mwy na 7 diwrnod.
- Dylech gynnwys copïau o'r holl ddogfennau a nodir yn Rhan 6 o'r ffurflen gais.

- Cyflwynwch y ffurflen gais, y dogfennau perthnasol a'r ffi i'r awdurdod lleol lle'r ydych yn gweithio neu'n gwneud y rhan fwyaf o'ch gwaith.
- Bydd eich awdurdod lleol yn anfon cydnabyddiaeth o'ch cais. Yna dylech aros i gael cyfarwyddiadau pellach.

## 3.4 Tra bod y cais yn cael ei adolygu

- Efallai y bydd eich awdurdod lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth am rai agweddau ar eich cais. Argymhellir eich bod yn darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl.
- Yna bydd swyddog yr awdurdod lleol yn cysylltu â chi i wneud apwyntiad i ymweld â chi yn eich gweithle i gynnal y cyfweliad ymgeisio.
- Cyn y cyfweliad, gofalwch eich bod wedi darllen yr adran 'Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio' isod.
- Ar ddiwedd y cyfweliad, bydd y swyddog yn trafod unrhyw gamau pellach sydd angen eu cymryd cyn y gellir cymeradwyo eich cais.
- Bydd swyddog yr awdurdod lleol yn eich cynghori beth fydd yn digwydd nesaf.

## 3.5 Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio

Fel rhan o'r broses ymgeisio, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd basio cyfweliad ymgeisio.

Bydd swyddog o'r awdurdod lleol yn cynnal y cyfweliad yn eich gweithle. Gofynnir cwestiynau i chi ar y pynciau canlynol:

- rheoli heintiau a chymorth cyntaf yng nghyd-destun y driniaeth arbennig rydych yn bwriadu ei rhoi,
- eich dyletswyddau fel deiliad trwydded o dan **Ran 4** o'r Ddeddf,
- yr amodau trwyddedu mandadol, a
- goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau trwyddedu mandadol.

Mae'r cyfweliad hwn yn arddangosiad ymarferol o'ch gwybodaeth. Er enghraifft, dylech fod yn barod i esbonio wrth swyddog yr awdurdod lleol sut rydych yn paratoi eich gweithfan, sut rydych yn glanhau a chynnal eich offer a phryd y dylech olchi eich dwylo.

I gael rhagor o wybodaeth am y mathau o gwestiynau y gellir eu gofyn i chi, gallwch gyfeirio at **Atodiad 2** 'Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio'.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi hefyd gyfeirio at ddogfen **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am atal a rheoli heintiau a'r egwyddorion y tu ôl i'r mesurau hyn.

## 3.6 Os cymeradwyir eich cais

Byddwch yn cael trwydded bapur A4 a thrwydded cerdyn llun. Bydd gan y rhain rif cyfresol sy'n unigryw i chi. Byddwch hefyd yn cael amodau sydd ynghlwm wrth eich trwydded y disgwylir i chi gydymffurfio â nhw.

Bydd eich enw a manylion eich trwydded triniaeth arbennig yn cael eu cyhoeddi ar **Gofrestr Gyhoeddus Triniaethau Arbennig Cymru**.

Bydd eich trwydded triniaeth arbennig yn ddilys am dair blynedd o'r dyddiad dyroddi.

Gofalwch:

- Eich bod yn arddangos y drwydded bapur A4 mewn man yn eich mangre lle gall cleientiaid ei gweld.
- Eich bod yn mynd â'r drwydded cerdyn llun gyda chi os ydych yn gweithio mewn lleoliadau eraill.
- Bydd eich trwydded yn ddilys yn unrhyw le yng Nghymru, ond rhaid i chi weithio o fangre neu gerbyd a gymeradwywyd ar gyfer y driniaeth rydych wedi'ch trwyddedu i'w rhoi AC a enwir ar eich trwydded.
- Os ydych am ychwanegu mangre neu gerbyd at eich trwydded, rhaid i chi gyflwyno cais i **amrywio eich trwydded** fel bod y fangre/cerbyd wedi ei henwi neu ei enwi ar eich trwydded.

## 3.7 Os dywedir wrthych na all eich cais fynd yn ei flaen

- Bydd yr awdurdod lleol yn eich cynghori beth sydd angen i chi ei wneud i barhau â'r cais.
- Unwaith y byddwch wedi cwblhau gofynion yr awdurdod lleol, byddant yn bwrw ymlaen â rhoi eich trwydded.
- Os oes gennych euogfarn heb ei disbyddu am drosedd berthnasol, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ystyried **Canllawiau Statudol a gynhyrchir gan Weinidogion Cymru**. Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried pan fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a ddylid rhoi'r drwydded ai peidio.
- Bydd yr awdurdod lleol yn dweud wrthych beth fydd yn digwydd nesaf.

## 3.8 Os gwrthodir eich cais

- Rhaid i'r awdurdod lleol ddweud wrthych yn ysgrifenedig y rhesymau pam y bydd yn gwrthod eich cais.
- Yna gallwch ofyn i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol ystyried y gwrthodiad, neu gallwch ddewis apelio'n uniongyrchol i'r llys ynadon. Gallwch gael cyngor gan eich cynrychiolwyr cyfreithiol eich hun i'ch cynorthwyo gyda'r broses hon.
- Bydd gennych yr hawl i gyflwyno sylwadau ar eich rhan eich hun i bwyllgor trwyddedu'r awdurdod lleol ynghylch pam rydych yn credu y dylid cymeradwyo'r drwydded. Gellir gwneud hyn ar lafar neu yn ysgrifenedig. Yn achos sylwadau llafar, mae gennych yr hawl i gynrychioli eich hun neu gael rhywun i'ch cynrychioli.

- Os bydd y pwyllgor trwyddedu yn adolygu'r dystiolaeth ac yn dod i'r casgliad y dylid rhoi eich trwydded, bydd eich cais yn cael ei gymeradwyo, a rhoddir trwydded i chi.
- Os bydd y pwyllgor trwyddedu yn adolygu'r dystiolaeth ac yn dod i'r casgliad y dylid gwrthod y drwydded, rhaid iddo ddweud wrthych y rhesymau pam y bydd yn gwrthod eich cais.
- Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad y pwyllgor trwyddedu, gallwch apelio i'r llys ynadon. Bydd yr awdurdod lleol yn dweud wrthych sut y gallwch wneud hyn.

## 3.9 Y broses apelio (drwy'r llysoedd)

Os byddwch yn cyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol (fel yr uchod) ac yn aflwyddiannus, gallwch apelio i'r llys ynadon os ydych yn credu bod penderfyniad yr awdurdod lleol i wrthod eich cais yn anghywir. Bydd y llys ynadon yn penderfynu a all yr apêl fynd yn ei blaen ai peidio.

Os ydych yn dymuno bwrw ymlaen ag apêl, efallai yr hoffech gael eich cynrychiolaeth gyfreithiol eich hun i roi cyngor ar wneud apêl, dogfennau i'w cyflwyno a thalu ffi'r llys.

Dylech fynd i wrandawiad yr apêl yn y llys ynadon.

Os byddwch yn ennill yr apêl, bydd yr awdurdod lleol yn bwrw ymlaen â'ch cais lle cafodd ei adael. Nid yw ennill apêl ar gam cynnar o'r broses ymgeisio yn eich esemptio rhag dilyn gweddill y broses ymgeisio.

Os bydd y llys ynadon yn penderfynu y dylai'r gwrthodiad sefyll a'ch bod yn colli'r apêl, bydd yn dweud wrthych pam.

Os ydych yn anghytuno â'i benderfyniad, efallai y bydd gennych sail i wneud apêl derfynol i Lys y Goron, ond bydd hyn yn golygu gwneud cais pellach am apêl, cyflwyno dogfennau a thalu ffi i'r llys.

Os byddwch yn ennill apêl Llys y Goron, bydd eich cais yn ailddechrau ar y cam yn y broses ymgeisio y cafodd ei wrthod. Os byddwch yn colli apêl Llys y Goron, bydd y penderfyniad yn sefyll gan nad oes llwybr apelio arall ar gael i chi oni bai bod yr amgylchiadau a arweiniodd at y gwrthodiad yn newid.

Pennod 4

# Sut i amrywio neu adnewyddu eich trwydded triniaeth arbennig

## 4.1 Sut i amrywio eich trwydded triniaeth arbennig

- Efallai y bydd deiliad trwydded yn dymuno amrywio manylion ei drwydded. Gellir gwneud hyn drwy wneud cais i'r awdurdod lleol a ddyroddodd eich trwydded triniaeth arbennig gyfredol.
- Bydd manylion sut i wneud cais am amrywiad i'ch trwydded ar gael ar wefan eich awdurdod lleol.
- Bydd angen i chi lenwi ffurflen gais a fydd yn gofyn am fanylion y newidiadau rydych yn gofyn amdanynt, a bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflen gais wedi ei llenwi gyda ffi am yr amrywiad hwnnw.
- Wrth adolygu cais am amrywiad, gall yr awdurdod lleol ofyn am ragor o wybodaeth am rai agweddau ar yr amrywiad. Argymhellir eich bod yn darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl.

**Gallai amrywiadau gynnwys:**

- Ychwanegu triniaeth arbennig at y drwydded, neu ddileu triniaeth arbennig o'r drwydded.
- Ychwanegu mangre neu gerbyd a gymeradwywyd at eich trwydded, neu ddileu mangre neu gerbyd a gymeradwywyd o'ch trwydded.
- Newid enw deiliad y drwydded e.e. newid enw ar ôl priodi.

**Nid yw'r amrywiadau'n cynnwys:**

- Trosglwyddo'r drwydded o ddeiliad y drwydded i unigolyn arall.
- Ymestyn cyfnod y drwydded.

Mae cymeradwyo a gwrthod cais am amrywiad a'r broses apelio ar gyfer cais am amrywiad yn dilyn yr un broses a amlinellir uchod ar gyfer trwydded triniaeth arbennig.

## 4.2 Sut i adnewyddu eich trwydded triniaeth arbennig

Rhaid i ddeiliad trwydded adnewyddu ei drwydded bob tair blynedd.

- Argymhellir eich bod yn gwneud cais i adnewyddu eich trwydded cyn i'ch trwydded ddod i ben.
- Dylech gyflwyno cais adnewyddu i'r awdurdod lleol a ddyroddodd eich trwydded gyfredol.
- Bydd manylion am sut i wneud cais i adnewyddu eich trwydded ar gael ar wefan yr awdurdod lleol.
- Bydd cais i adnewyddu yn golygu llenwi ffurflen gais a darparu unrhyw ddogfennau perthnasol y gall yr awdurdod lleol ofyn amdanynt (bydd hyn yn debyg i'ch cais gwreiddiol am drwydded triniaeth arbennig).
- Yna bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflen gais gyda'r ffi adnewyddu.

Os bydd eich trwydded yn dod i ben tra'ch bod yn aros i'r awdurdod lleol wneud penderfyniad i adnewyddu eich trwydded, nid ystyrir bod eich trwydded gyfredol wedi dod i ben.

Ni fydd yr awdurdod lleol yn gallu adnewyddu eich trwydded oni bai bod y fangre/cerbyd a nodir yn eich trwydded wedi cael ei harchwilio neu ei archwilio a'i chymeradwyo neu ei gymeradwyo yn unol â Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau a Gymeradwywyd o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024. **Gweler y canllawiau Mangreoedd a Cherbydau**.

Mae cymeradwyo a gwrthod cais i adnewyddu a'r broses apelio ar gyfer cais i adnewyddu yn dilyn yr un broses a amlinellir uchod ar gyfer trwydded triniaeth arbennig.

Pennod 5

# Trwyddedau triniaeth arbennig dros dro

**Os nad ydych yn gweithredu fel arfer yng Nghymru neu os ydych yn dewis rhoi triniaethau arbennig yn anaml am 7 diwrnod neu lai mewn un ymweliad, gallwch wneud cais am drwydded triniaeth arbennig dros dro. Gall trwydded triniaeth arbennig dros dro fod yn ddilys o un diwrnod i hyd at saith diwrnod.**

Mae enghreifftiau o lle y gellir defnyddio trwydded triniaeth arbennig dros dro yn cynnwys:

- cynnal 'sesiwn' mewn mangre neu gerbyd a gymeradwywyd
- rhoi triniaeth(au) arbennig mewn digwyddiad neu gonfensiwn diwydiant/masnach
- rhoi triniaeth(au) arbennig mewn gŵyl (gŵyl gerddoriaeth, y celfyddydau neu gymunedol).

Os ydych yn bwriadu gweithredu yng Nghymru yn amlach dros gyfnod o dair blynedd, efallai y bydd yn fwy costeffeithiol i chi wneud cais am drwydded triniaeth arbennig tair blynedd.

## 5.1 Pwyntiau pwysig i ymgeiswyr am drwydded triniaeth arbennig dros dro

Wrth wneud cais am drwydded triniaeth arbennig dros dro, rhaid i chi wneud cais i'r awdurdod lleol o leiaf 28 diwrnod gwaith cyn y dyddiad rydych yn bwriadu dechrau rhoi'r driniaeth arbennig.

Argymhellir eich bod yn cysylltu â'r awdurdod lleol yn gynnar i gael sgwrs anffurfiol am fanylion eich cais.

Os yw ymgeiswyr yn byw y tu allan i Gymru, gall awdurdodau lleol drefnu i gynnal y cyfweliad ymgeisio drwy blatfform cyfathrebu neu dros y ffôn.

Os ydych yn gwneud cais o'r tu allan i Gymru, mae'r Dyfarniad Atal a Rheoli Heintiau Lefel 2 a reoleiddir y mae'n ofynnol i chi ei gwblhau a'i basio ar gael ar-lein. Bydd yr awdurdod lleol yn gallu rhoi manylion cyrsiau ar-lein derbyniol i chi.

Pennod 6

# Amodau trwyddedu mandadol: amodau cyffredinol

**Fel deiliad trwydded sy'n rhoi triniaeth tyllu'r corff, mae'n ofynnol i chi gydymffurfio â'r 'Amodau Trwyddedu Mandadol: amodau cyffredinol' sy'n berthnasol i'r pedair triniaeth arbennig ddynodedig yn ogystal â'r 'Amodau Trwyddedu Mandadol: tyllu'r corff'.**

Mae'r ddwy adran ganlynol yn amlinellu pob amod trwyddedu fel y'i hysgrifennwyd yn Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024 ac yn rhoi esboniad byr o sut y gallwch gydymffurfio â phob amod.

Mae nifer o amodau cyffredinol na fyddant yn berthnasol i'r deiliaid trwydded hynny sy'n gweithredu polisi defnydd sengl yn unig.

Efallai y bydd deiliaid trwydded hefyd yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at ddogfen **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am atal a rheoli heintiau a'r egwyddorion y tu ôl i'r mesurau hyn.

## Cyfeiriad: Rheoliad 7(3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024, (nodir yr amodau yn Atodlen 3)

### 1. Amodau Cyffredinol

**Mae Amod 1 yn gosod 4 gofyniad cyffredinol ar ddeiliad y drwydded:**

(1) Ni chaiff deiliad y drwydded ond rhoi triniaeth arbennig y mae wedi ei drwyddedu i'w rhoi yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd a bennir ar ei drwydded (oni bai bod eithriadau'n gymwys).

**Sut i gydymffurfio** – Dim ond y driniaeth arbennig rydych wedi'ch trwyddedu i'w rhoi y caniateir i chi ei rhoi, a dim ond yn y mangreoedd/cerbydau a gymeradwywyd a nodir ar eich trwydded y caniateir i chi roi'r driniaeth hon.

**Eithriadau:** Mae **Atodiad 1** o'r canllawiau hyn yn nodi'r amodau llym o ran esemptio aelodau o broffesiynau penodedig rhag y gofyniad i gael eu trwyddedu, a pha rai o'r gweithdrefnau y gallant eu cyflawni o dan yr esemptiad hwnnw.

Mae **esemptiad** hefyd ar gyfer mangreoedd a cherbydau penodol nad oes angen iddynt gael eu cymeradwyo gan awdurdod lleol i ganiatáu i weithdrefnau arbennig gael eu cynnal ynddynt – dim ond i fangreoedd/cerbydau sy'n cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Iechyd Cymru y mae'r esemptiad hwn yn gymwys. Mae'r unig esemptiad arall sy'n cynnwys mangreoedd a cherbydau nad oes angen iddynt gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol yn ymwneud ag annedd (cartref) cleient, a dim ond i driniaeth aciwbigo y mae'n gymwys, ar yr amod bod gan yr ymarferydd drwydded ddilys. Mae rhagor o fanylion am esemptiadau i fangreoedd/cerbydau i'w gweld yn Atodiad 1 o'r **ddogfen ganllawiau** sy'n ymwneud â mangreoedd a cherbydau.

O ran rhoi triniaethau'r tyllu'r corff a thyllu clustiau, **nid oes unrhyw eithriadau eraill** i'r gofyniad i ymarferydd gael ei drwyddedu, nac i'r gofyniad i fangreoedd/cerbydau gael eu cymeradwyo.

(2) Ni chaiff deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig mewn mangre a gymeradwywyd neu mewn cerbyd a gymeradwywyd, nac mewn unrhyw ran ohoni neu ohono, os oes risg, neu os yw'n debygol y bydd risg, o niwed i iechyd dynol.

**Sut i gydymffurfio** – Gallai enghreifftiau o 'niwed i iechyd dynol' gynnwys:

- Nid yw'r system dŵr poeth yn gweithio.
- Mae'r cyflenwad dŵr wedi ei ddiffodd.
- Mae llifogydd yn y fangre.
- Mae rhwystr yn y system ddraenio wedi arwain at halogi posibl gan garthion.
- Mae cyflwr gwael y man gwaith triniaethau arbennig yn debygol o atal glanhau'r weithfan yn effeithiol.

(3) Ni chaiff deiliad y drwydded ond rhoi'r driniaeth arbennig yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan yn unol ag amodau'r drwydded. Yn y modd hwn, mae'r risg o niwed i iechyd dynol yn cael ei lleihau.

(4) Rhaid i ddeiliad y drwydded gyflawni gweithgareddau mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth arbennig mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'r dystysgrif gymeradwyo (gan gynnwys yr amodau cymeradwyo mandadol) a ddyroddwyd mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd a nodir yn y drwydded triniaeth arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y drwydded roi sylw priodol i ofynion ac amodau'r dystysgrif gymeradwyo mangreoedd/cerbydau wrth ymgymryd â gweithgareddau mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth arbennig. Er enghraifft, os yw deiliad y dystysgrif wedi darparu offer glanhau a sterileiddio i'w ddefnyddio gan yr holl ddeiliaid trwydded sy'n gweithredu o'r fangre honno a gymeradwywyd, dylai deiliad y drwydded ddefnyddio'r offer yn unol â chyfarwyddyd deiliad y dystysgrif ac yn unol ag amodau'r dystysgrif gymeradwyo.

## 2. Materion sy'n Ymwneud â'r Drwydded

**Mae Amod 2 yn ymwneud â'r drwydded ei hun a rhai camau penodol sy'n ofynnol gan ddeiliad y drwydded. Mae'n cynnwys 6 rhan:**

(1) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod Rhan 1 neu Ran 2 o'i drwydded triniaeth arbennig yn cael ei harddangos mewn safle sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid arddangos y drwydded cerdyn llun neu gopi papur A4 fel y gall cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd ddarllen ei manylion yn hawdd.

Er enghraifft, gellid arddangos y drwydded copi papur A4 ar y wal yn nerbynfa'r fangre a gymeradwywyd, neu'r man gwaith triniaethau arbennig, neu efallai y bydd deiliad y drwydded yn dymuno gwisgo'r drwydded cerdyn llun yn ystod y diwrnod gwaith. Y pwynt yw y gall cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd weld bod gan y deiliad drwydded triniaeth arbennig.

(2) Rhaid i gopi o'r amodau trwyddedu mandadol cymwys fod ar gael yn rhwydd ar gais gan swyddog awdurdodedig neu gleient.

**Sut i gydymffurfio** – Gall y copi hwn fod yn gopi caled neu'n gopi sy'n hawdd ei gyrchu ar gyfrifiadur, iPad neu ddyfais symudol debyg. Y pwynt yw y gall swyddog awdurdod lleol neu gleient ddarllen yr amodau ar gais.

(3) Ni chaniateir addasu'r drwydded triniaeth arbennig mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r drwydded triniaeth arbennig mewn dwy ran: y cerdyn llun a'r copi papur A4. Ni ddylid newid na diwygio'r ddwy ran a rhaid iddynt fod yn hawdd eu darllen.

Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw hyn, hyd yn oed os caiff ei newid gan drydydd parti neu os daw'n annarllenadwy heb unrhyw fai arno.

(4) Mewn achos pan fo'r drwydded triniaeth arbennig wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y drwydded wneud cais, o fewn cyfnod rhesymol, i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r drwydded triniaeth arbennig mewn dwy ran: y cerdyn llun a'r copi papur A4. Felly, os bydd y naill ran neu'r llall o'r rhain wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y drwydded gael un newydd yn ei lle gan yr awdurdod lleol.

Byddai "cyfnod rhesymol" yn cael ei bennu gan yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r drwydded cerdyn llun neu gopi papur A4 yn mynd ar goll, yn cael ei dwyn neu'n cael ei difrodi. Gall y cyfnod hwn amrywio, ond byddai'n rhesymol i ddeiliad y drwydded ofyn am gael un newydd yn ei lle ar unwaith os daw'n ymwybodol bod y drwydded wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi.

(5) Os caiff deiliad y drwydded ei euogfarnu o drosedd berthnasol yn ystod cyfnod y drwydded, rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu'r awdurdod lleol sy'n dyroddi ar unwaith am yr euogfarn. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys dyddiad yr euogfarn, manylion y drosedd berthnasol, y ddedfryd neu'r gosb a roddwyd (gan gynnwys hyd unrhyw ddedfryd) ac unrhyw wybodaeth arall sy'n rhesymol ofynnol gan yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.

**Sut i gydymffurfio** – **Dim ond** os yw'r euogfarn am drosedd berthnasol y mae'n ofynnol i chi hysbysu'r awdurdod lleol, hynny yw, trosedd:

- o dan **Ran 4** (triniaethau arbennig) neu **Ran 5** (rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, neu
- yn ymwneud â thrais, o natur rywiol, neu'n ymwneud â deunydd neu ddelweddau rhywiol,
- yn golygu tatŵio plentyn o dan 18 oed,
- yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith neu fethiant i gydymffurfio â chynllun trwyddedu neu reoliadau triniaeth arbennig.

Mae hyn yn annhebygol o gynnwys euogfarnau am drosedd goryrru neu yfed a gyrru, er enghraifft.

Mae "ar unwaith" yn golygu 'heb oedi', felly mae'n gofyn i chi hysbysu'r awdurdod lleol a ddyroddodd eich trwydded cyn gynted ag y byddwch wedi cael eich dyfarnu'n euog.

Gall "yn ysgrifenedig" gynnwys e-bost neu lythyr (a anfonir drwy'r post neu â llaw at yr awdurdod lleol). Fe'ch cynghorir i gadw copi o'r ohebiaeth hon.

Efallai y bydd angen rhagor o fanylion ar yr awdurdod lleol am euogfarn y drosedd berthnasol – rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth hon.

(6) Pan ddaw'r drwydded triniaeth arbennig i ben, rhaid dychwelyd y drwydded sydd wedi dod i ben i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr awdurdod hwnnw.

**Sut i gydymffurfio** – Gellir dychwelyd y drwydded drwy'r post, ei dosbarthu â llaw neu ei rhoi yn uniongyrchol i swyddog yr awdurdod lleol.

Fe'ch cynghorir i gadw copi o'r ohebiaeth sy'n cyd-fynd â'r drwydded rydych yn ei dychwelyd at yr awdurdod lleol.

## 3. Y Cleient ac Ymgynghori â Chleient

**Mae Amod 3 yn cynnwys 7 rhan ac yn canolbwyntio ar y gofynion ar gyfer ymgynghori â chleient a'r broses ôl-ofal.**

**Gall deiliad y drwydded gyfeirio at Atodiadau 2, 3 a 6 sy'n cynnwys ffurflen dempled ymgynghori â chleient, ffurflen datganiad, canllawiau ar reoli ymgynghori â chleient a thaflen dempled ôl-ofal.**

(1) Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig i gleient os yw'n amau nad yw'r cleient yn ffit ac yn iach.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded fodloni ei hun bod y cleient yn teimlo'n ddigon da i gael y driniaeth. Er enghraifft, efallai na fydd y cleient yn edrych yn iawn neu'n ymddwyn yn wahanol i'r arfer (os yw'n gleient rheolaidd). Gall fod yn amlwg bod y cleient yn sâl os oes ganddo dwymyn neu beswch/annwyd. Ar y llaw arall, efallai na fydd gan y cleient unrhyw symptomau corfforol neu feddyliol penodol ond nad yw'n teimlo'n ddigon da i gael y driniaeth arbennig. Mae deiliad y drwydded yn blaenoriaethu iechyd ei gleient a gall aildrefnu'r apwyntiad.

(2) Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig i unigolyn sy'n feddw, neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai'r ffurflen ymgynghori â chleient gynnwys datganiad wedi ei lofnodi gan y cleient nad yw'n feddw. Os yw deiliad y drwydded yn amau bod y cleient yn feddw neu nad yw wedi ei argyhoeddi gan y datganiad llofnodedig a ddarparwyd gan y cleient, ni ddylid rhoi'r driniaeth arbennig bryd hynny.

Mae rhai o nodweddion meddwdod yn cynnwys:

- Arwyddion o gyffuriau tawelu ac alcohol sy'n cynnwys diffyg cydsymud, colli swildod, arogl amlwg, lleferydd aneglur, cysglyd.
- Gallai arwyddion o gyffuriau adfywiol gynnwys cannwyll y llygaid yn llydan, ceg sych, bod yn fwy effro ac egnïol a gwneud wynebau rhyfedd.

(3) Rhaid i ddeiliad y drwydded gynnal ymgynghoriad â'r cleient a, phan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, â rhiant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient, cyn rhoi'r driniaeth arbennig. Rhaid i'r ymgynghoriad hwn fod ar ffurf ffurflen ysgrifenedig ar gyfer ymgynghori â chleientiaid a rhaid i'r ffurflen honno gynnwys y canlynol:

(a) enw llawn y cleient,

(b) datganiad sy'n cadarnhau bod deiliad y drwydded wedi gwirio oedran y cleient,

(c) manylion cyswllt y cleient,

(d) esboniad llawn o'r broses, y risgiau a'r gwrtharwyddion sy'n gysylltiedig â'r driniaeth arbennig,

(e) esboniad o effeithiau cymdeithasol triniaeth arbennig a roddir ar wyneb neu wddf y cleient (os yw'n gymwys),

(f) hanes meddygol perthnasol y cleient, gan gynnwys cyflyrau iechyd arwyddocaol neu berthnasol fel clefyd y galon, epilepsi, diabetes, cyflyrau sy'n peryglu imiwnedd, alergeddau, beichiogrwydd a manylion meddyginiaeth ragnodedig gan gynnwys gwrthgeulyddion,

(g) cofnod a yw cleient wedi dodi anesthetig argroenol arno ei hun cyn y driniaeth arbennig (ac, os felly, gadarnhad bod deiliad y drwydded wedi ei fodloni bod yr anesthetig argroenol wedi ei gymeradwyo a'i awdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd), ac

(h) esboniad o'r cyngor ôl-ofal ar gyfer y driniaeth arbennig a roddir.

**Sut i gydymffurfio** – Gall deiliad y drwydded ddefnyddio'r ffurflen dempled a ddarperir yn **Atodiad 3** neu addasu'r templed hwn i ddiwallu anghenion ei fusnes. Os bydd deiliad y drwydded yn defnyddio ei ffurflen ei hun neu'n addasu'r ffurflen dempled, rhaid iddo sicrhau ei fod yn cynnwys o leiaf yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn is-adran (3) uchod.

Gall y cleient lenwi'r ffurflen cyn cael y driniaeth arbennig, ond rhaid i ddeiliad y drwydded fynd drwy'r ffurflen gyda'r cleient a bod yn fodlon bod y cleient wedi cael amser i drafod unrhyw bryderon sydd ganddo cyn i'r driniaeth gael ei rhoi.

Gall y cleient hefyd lenwi'r ffurflen ym mhresenoldeb deiliad y drwydded sydd ar gael i ateb ymholiadau, neu gall deiliad y drwydded lenwi'r ffurflen dan gyfarwyddyd y cleient (e.e. lle nad yw'r cleient yn gallu darllen neu ysgrifennu).

Dylai deiliad y drwydded wirio oedran y cleient a datgan hyn yn y ffurflen ymgynghori â chleient.

Dylai manylion cyswllt gynnwys rhif ffôn ac, yn ddelfrydol, gyfeiriad e-bost y cleient.

Rhaid i ddeiliad y drwydded esbonio sut y rhoddir y driniaeth arbennig, risgiau posibl sy'n gysylltiedig â haint, alergeddau a gwrtharwyddion cyffredin. Bydd y ffurflen dempled ymgynghori â chleient yn helpu i lywio'r sgwrs hon.

Pan fydd cleient yn cael twll yn ei wyneb neu yn ei wddf, rhaid i ddeiliad y drwydded gynghori'r cleient am effaith gymdeithasol bosibl y penderfyniad hwn. Yn y pen draw, penderfyniad y cleient yw hwn, ond mae angen i'r cleient fod yn ymwybodol y gallai ei benderfyniad effeithio ar ei gyfleoedd cyflogaeth, er enghraifft.

Dylai deiliad y drwydded fod yn barod i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y cleient.

(4) Rhaid i'r ffurflen ymgynghori â chleientiaid sydd wedi ei llenwi gael ei llofnodi gan ddeiliad y drwydded a'i chydlofnodi gan y cleient neu, pan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, gan riant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient.

**Sut i gydymffurfio** – Gall llofnodion fod naill ai'n electronig neu â llaw, a dylid nodi'r dyddiad llofnodi hefyd. Dylai'r rhiant neu'r gwarcheidwad cyfreithiol fod yn barod i ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r berthynas â'r cleient os bydd deiliad y drwydded yn gofyn amdani.

(5) Pan nodir unrhyw wrtharwyddion yn ystod yr ymgynghoriad â chleient, ni chaiff deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig oni bai bod deiliad y drwydded wedi ei fodloni bod modd rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel o hyd. Os oes gan ddeiliad y drwydded unrhyw bryderon ynghylch iechyd y cleient, ni chaiff deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig nes ei fod wedi cael cyngor meddygol neu gymeradwyaeth gan ymarferydd cyffredinol neu feddyg ymgynghorol y cleient. Rhaid cynnwys copi o'r wybodaeth hon yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded mewn perthynas â'r cleient.

**Sut i gydymffurfio** – Pan nodir gwrtharwyddion, gall deiliad y drwydded gyfeirio at y protocol 'Rheoli Ymgynghori â Chleient' (gweler **Atodiad 4**) a siarad yn fanylach gyda'r cleient.

Pan fo gan ddeiliad y drwydded unrhyw amheuon ynghylch cyflwr y cleient a'r effaith bosibl ar ei iechyd, ni ddylai gynnal y driniaeth a dylai ddarparu'r rhesymau yn ysgrifenedig i'r cleient. Dylid cynghori'r cleient, os yw'n dymuno cael y driniaeth, y bydd angen iddo ofyn am gyngor gan ei feddyg teulu (gallai'r meddyg hwn fod yn feddyg teulu* ym mhractis meddygol y GIG y mae'r cleient wedi ei gofrestru ag ef neu'n feddyg teulu preifat*) neu ymgynghorydd meddygol* a darparu hyn yn ysgrifenedig.

Gellir defnyddio'r templed yn **Atodiad 5** at y diben hwn.

Dylai'r ymarferydd sicrhau bod copi yn cael ei wneud o unrhyw gyngor a ddarperir gan y meddyg teulu/ymgynghorydd meddygol a'i fod yn cael ei gadw ar ffeil.

* **NODER:** Nid yw'n ofynnol i feddygon teulu y GIG, meddygon teulu preifat nac ymgynghorwyr meddygol ddarparu cyngor ysgrifenedig o'r math hwn a gallant wrthod gwneud hynny. Dylai unrhyw un sy'n ymgynghori â meddyg teulu preifat sicrhau bod eu meddyg dewisol wedi ei gofrestru gyda'r **Cyngor Meddygol Cyffredinol** cyn cysylltu ag ef.

(6) Cyn ac ar ôl rhoi'r driniaeth arbennig, rhaid i ddeiliad y drwydded roi cyfle i'r cleient neu, pan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, i riant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient, i ofyn unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r driniaeth arbennig a'r cyngor ôl-ofal.

**Sut i gydymffurfio** – Gall deiliad y drwydded ddisgwyl ateb cwestiynau cyn, yn ystod ac ar ôl y driniaeth arbennig ac, yn achos ôl-ofal, gallai hyn ymestyn i sawl diwrnod ar ôl rhoi'r driniaeth arbennig. Mae **Atodiad 6** yn darparu taflen ôl-ofal enghreifftiol.

Os na all deiliad y drwydded ateb y cwestiwn, mae'n dderbyniol i ddeiliad y drwydded oedi cyn ymateb tra'i fod yn cael yr wybodaeth gywir neu gall atgyfeirio'r cleient at drydydd parti perthnasol.

(7) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod cyngor ôl-ofal yn cael ei ddarparu i'r cleient neu, pan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, i riant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient. Rhaid defnyddio iaith glir wrth ddarparu'r cyngor hwn a rhaid iddo fod mewn fformat hawdd ei ddeall. Rhaid ei roi ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r cleient neu, pan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, i riant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient, a rhaid iddo gynnwys manylion cyswllt deiliad y drwydded a roddodd y driniaeth arbennig. Rhaid cynnwys copi o'r cyngor yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded mewn perthynas â'r cleient.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i gyngor ôl-ofal ddiwallu anghenion y cleient; felly, dylai amrywiaeth o fformatau fod ar gael, ar ffurf diagram neu'n ysgrifenedig, copi electronig neu gopi caled. Mae cyfeiriad at dudalennau gwe yn dderbyniol os yw'r cleient yn cytuno. Gweler **Atodiad 6** am dempled enghreifftiol.

Rhaid cynnwys manylion cyswllt deiliad y drwydded yn y cyngor ôl-ofal a dylid disgwyl i ddeiliad y drwydded ateb unrhyw ymholiadau dilynol sydd gan y cleient.

## 4. Cadw Cofnodion

**Mae Amod 4 yn cynnwys 4 rhan ac mae'n ymwneud â chadw dogfennau penodol a chofnodi gwybodaeth benodol:**

(1) Rhaid i ddeiliad y drwydded ddal gafael ar gofnodion ysgrifenedig mewn perthynas â'r cleient am 3 blynedd gan ddechrau â'r diwrnod y rhoddir y driniaeth arbennig. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys copi o'r ffurflen ymgynghori â chleientiaid wedi ei llenwi a'i llofnodi.

**Sut i gydymffurfio** – Dylid cadw cofnodion ysgrifenedig cleientiaid yn ddiogel, naill ai'n electronig neu â llaw, am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad y driniaeth ddiweddaraf. Dylid cynnwys y ffurflen ymgynghori â chleientiaid wedi ei llenwi a'i llofnodi yn yr wybodaeth hon, ynghyd â dogfennau gan weithwyr meddygol proffesiynol sy'n ymwneud ag unrhyw wrtharwyddion a nodwyd.

(2) Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw a chynnal cofrestr o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig gan ddeiliad y drwydded. Rhaid i'r gofrestr hon gynnwys y canlynol:

(a) dyddiad y digwyddiad,

(b) manylion y digwyddiad,

(c) enw a manylion cyswllt y cleient neu berson arall (a all gynnwys deiliad y drwydded) a roddodd wybod am y digwyddiad, a

(d) unrhyw gamau adfer a gymerwyd gan ddeiliad y drwydded i atal hyn rhag digwydd eto.

**Sut i gydymffurfio** – At ddibenion y cynllun trwyddedu hwn, mae digwyddiad yn golygu rhywbeth sydd wedi digwydd, neu yr honnir ei fod wedi digwydd, sydd â'r potensial i achosi niwed i iechyd dynol. Er enghraifft, adalw cynnyrch, methiant offer fel awtoclaf, honiad o haint neu afiechyd arall, neu gŵyn cleient yn dilyn triniaeth arbennig.

Nid yw cofrestr o ddigwyddiadau yn awgrymu atebolrwydd ond mae'n gweithredu fel math o ddiwydrwydd dyladwy sy'n galluogi deiliad y drwydded i ddarparu tystiolaeth o'r camau a gymerwyd, naill ai mewn ymateb i'r digwyddiad neu mewn ymdrech i'w atal rhag digwydd eto. Dylid cadw cofnodion o'r digwyddiad am dair blynedd. Gall y gofrestr o ddigwyddiadau fod naill ai'n electronig neu'n gopi caled.

(3) Rhaid i ddeiliad y drwydded gofrestru'r digwyddiad a chymryd unrhyw gamau adfer o fewn cyfnod rhesymol.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded lenwi'r gofrestr o ddigwyddiadau ar gyfer pob digwyddiad. Mae'r gofrestr yn galluogi deiliad y drwydded i gofnodi tystiolaeth o'r digwyddiad hwnnw a'r camau a gymerodd mewn ymateb iddo a, lle bo'n briodol, gymryd camau adfer.

Mae enghraifft o gofrestr o ddigwyddiadau yn **Atodiad 7**.

(4) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod ganddo sicrwydd yswiriant drwy'r amser yn ystod cyfnod ei drwydded. Rhaid i dystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys fod ar gael yn rhwydd i'w harolygu gan unrhyw swyddog awdurdodedig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i sicrwydd yswiriant dilys gael ei ddyroddi gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio deiliad y drwydded mewn perthynas ag unrhyw atebolrwydd a all ddod i'w ran, mewn perthynas â salwch, haint, anaf a/neu effeithiau iechyd andwyol anheintus ar iechyd fel adweithiau alergaidd, sy'n deillio o roi triniaeth arbennig y mae deiliad y drwydded wedi ei drwyddedu i'w rhoi.

Gall y sicrwydd yswiriant fod yn yswiriant mae deiliad y drwydded wedi ei gaffael, ac mae'n cwmpasu'r canlynol:

- y triniaethau y mae'n eu rhoi a'r lle/lleoedd y mae'n gweithio ohonynt
- NEU gall deiliad y drwydded fod wedi ei gynnwys ym mholisi ei gyflogwr
- NEU yn y polisi sy'n cwmpasu'r fangre/busnes lle'r ydych yn gweithio.

Byddai "unrhyw swyddog awdurdodedig" yn cynnwys swyddogion o'r awdurdod lleol sy'n dyroddi neu'r awdurdod lleol mae deiliad y drwydded yn gweithredu ohono.

## 5. Arferion Diogelwch a Hylendid Deiliad y Drwydded

**Mae Amod 5 yn cynnwys 16 o arferion diogelwch ac iechyd y disgwylir i ddeiliaid trwydded eu gweithredu:**

(1) Rhaid i ddeiliad y drwydded barhau i ddatblygu, diweddaru a chynnal ei wybodaeth am atal a rheoli heintiau a'i sgiliau o ran pob triniaeth arbennig y mae wedi ei drwyddedu i'w rhoi. Rhaid i ddeiliad y drwydded gynnal cofnod ysgrifenedig o'r modd y mae wedi bodloni'r gofyniad hwn.

**Sut i gydymffurfio** – Gellir cyflawni hyn drwy sicrhau bod deiliad y drwydded yn cael mynediad at y **Gweminarau a'r pecynnau e-ddysgu** ar-lein ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu wasanaethau iechyd cyhoeddus neu ddiogelu iechyd eraill sydd ag enw da, drwy ddarllen cyfnodolion iechyd cyhoeddus neu fasnach, drwy fynd i sioeau masnach, arddangosfeydd neu ddigwyddiadau neu drwy danysgrifio i gymdeithasau masnach neu iechyd cyhoeddus, grwpiau ar-lein, cyfnodolion neu gylchgronau.

Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig (electronig neu gopi caled), gan gynnwys tystysgrifau presenoldeb, fel tystiolaeth o gydymffurfiaeth.

Y disgwyliad yw bod gan ddeiliad y drwydded wybodaeth ymarferol dda am y driniaeth arbennig y mae wedi ei drwyddedu i'w rhoi, a'i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn perthynas â chynhyrchion ac offer cysylltiedig a'i fod yn gallu cynnal (o leiaf) wybodaeth am egwyddorion sylfaenol atal a rheoli heintiau mewn perthynas â'r driniaeth arbennig y mae'n ei rhoi. Yn y modd hwn, gall roi triniaethau hylan a diogel a chyngor da i'w gleientiaid yn well.

Gall deiliaid trwydded hefyd ddangos eu bod yn datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy ymgymryd â chymwysterau a reoleiddir perthnasol pellach.

(2) Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig i unigolyn pan fo'r driniaeth wedi ei pheryglu, neu'n debygol o gael ei pheryglu, gan y ffaith ei fod ef ei hun yn feddw yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall.

**Sut i gydymffurfio** – Ni ddylai deiliad y drwydded, o dan unrhyw amgylchiadau, roi triniaeth arbennig os yw ef ei hun yn feddw yn rhinwedd diod neu gyffuriau.

Os yw deiliad y drwydded yn cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn neu 'dros y cownter' a allai amharu ar ei allu i roi'r driniaeth arbennig yn ddiogel ac yn hylan, **ni ddylai** roi'r driniaeth arbennig. Os nad yw'n sicr o'r effaith y gallai'r feddyginiaeth ei chael ar ei allu i roi'r driniaeth arbennig, dylai ofyn am gyngor gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol.

(3) Ni chaiff deiliad y drwydded ysmygu, fepio, bwyta bwyd nac yfed diod yn y man gwaith triniaethau arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Gellir bwyta bwyd ac yfed diod y tu allan i'r man gwaith triniaethau arbennig.

(4) Rhaid i ddeiliad y drwydded arfer hylendid dwylo rheolaidd a thrylwyr.

**Sut i gydymffurfio** – Mae hylendid dwylo yn cynnwys:

(i) golchi dwylo gan ddefnyddio sebon hylif a dŵr, a

(ii) defnyddio rhwbiad dwylo sy'n seiliedig ar alcohol.

Dylid golchi dwylo (sy'n cynnwys sychu'r dwylo'n drylwyr) pan fydd y dwylo'n amlwg yn fudr neu lle y maent wedi eu halogi, neu lle y gallent fod wedi eu halogi, â gwaed, hylifau'r corff, croen nad yw'n gyflawn neu bilenni mwcaidd. Gellir defnyddio rhwbiad llaw sy'n seiliedig ar alcohol o dan yr holl amgylchiadau eraill.

Ni ddylid byth defnyddio rhwbiad llaw yn lle golchi dwylo.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 4 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

(5) Rhaid i ewinedd deiliad y drwydded fod yn lân, heb estyniadau ewinedd, farnais nac addurn.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw ewinedd glân heb unrhyw estyniadau, farnais nac addurn wrth roi triniaethau arbennig.

Canfuwyd bod estyniadau a gorchuddion ewinedd yn dal mwy o facteria nag ewinedd naturiol, a gall rhai estyniadau ac addurniadau lesteirio hylendid dwylo effeithiol a chynyddu'r tebygolrwydd y bydd menyg yn rhwygo.

(6) Rhaid i ddeiliad y drwydded orchuddio unrhyw glwyfau agored, briwiau neu gornwydydd ar ran o'i gorff nad yw wedi ei gorchuddio â dresin anathraidd.

**Sut i gydymffurfio** – Mae "clwyfau agored" yn cynnwys unrhyw groen nad yw'n gyflawn fel crafiadau a sgraffiniadau. Mae "dresin anathraidd" yn golygu dresin sy'n atal lleithder rhag mynd i mewn i'r clwyf y mae'n ei orchuddio. Dylai'r dresin orchuddio ardal y clwyf ac, os yw'r clwyf ar y llaw, rhaid iddo aros yn ei le o dan fenyg.

Mae dresin adlynol gwrth-ddŵr glân yn dderbyniol.

(7) Rhaid newid unrhyw gyfarpar diogelu personol untro, tafladwy, rhwng pob cleient neu pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Pan fydd egwyl o unrhyw hyd, mae'n ofynnol i ddeiliad y drwydded newid unrhyw gyfarpar diogelu personol (PPE) untro, tafladwy yr oedd yn ei wisgo o'r blaen, hyd yn oed os yw ar gyfer yr un cleient.

Fel mater o drefn, mae PPE yn cynnwys defnyddio menyg a ffedogau. Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 7 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

(8) Os yw'n ofynnol defnyddio rasel yng nghwrs rhoi'r driniaeth arbennig, rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau mai dim ond raseli untro tafladwy a ddefnyddir.

**Sut i gydymffurfio** – Dim ond raseli untro tafladwy y dylai deiliad y drwydded eu defnyddio.

(9) Rhaid i ddeiliad y drwydded gynnal asesiad gweledol o gyflwr croen y cleient lle y mae'r driniaeth arbennig i'w rhoi, a dihalogi'r croen cyn rhoi'r driniaeth arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y croen yn lân cyn rhoi'r driniaeth arbennig. Dylai deiliad y drwydded ddihalogi'r croen gan ddefnyddio un swab sy'n cynnwys 70% o alcohol isopropyl neu 2% o glwconad clorohecsidin mewn 70% o alcohol, a hynny unwaith yn ddelfrydol.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 5 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

(10) Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig ar groen nad yw'n gyflawn neu pan fo tystiolaeth o niwed, crafiad neu haint.

**Sut i gydymffurfio** – Gallai croen nad yw'n gyflawn, hynny yw, ei fod wedi ei dorri neu ei niweidio, ganiatáu i ficro-organebau fynd i mewn ac achosi haint. Mae ecsema a soriasis yn effeithio ar gyfanrwydd y croen. Gydag ecsema yn benodol, mae cleientiaid yn aml yn cario mwy o facteria ar y croen ac, er enghraifft, byddai tyllu ardal yr effeithir arni yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyflwyno bacteria neu feirysau i'r croen. Byddai croen sy'n cael ei effeithio gan soriasis yn cyflwyno risg uwch o haint.

Bydd asesiad gweledol o'r croen gan ddeiliad y drwydded yn cadarnhau a yw'r croen yn gyflawn ac felly'n cadarnhau y gellir rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel.

(11) Ni chaiff deiliad y drwydded gyflenwi anesthetigau argroenol i gleient, na'u dodi arno, cyn, yn ystod nac ar ôl triniaeth arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Ni ddylai deiliad y drwydded gyflenwi anesthetigau argroenol i gleient, na'u dodi arno. Mae "cyflenwi" yn golygu rhoi, gwerthu neu ddarparu i gleient ac mae "dodi arno" yn cynnwys rhoi a defnyddio.

(12) Ni chaiff deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig:

(a) os yw deiliad y drwydded wedi cael gwybod bod y cleient wedi dodi anesthetig argroenol arno ei hun cyn y driniaeth arbennig, nad yw wedi ei gymeradwyo na'i awdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, neu

(b) os yw'r cleient wedi dodi anesthetig argroenol arno ei hun cyn y driniaeth arbennig ac nad yw deiliad y drwydded wedi cael digon o dystiolaeth bod yr anesthetig argroenol wedi ei gymeradwyo a'i awdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

**Sut i gydymffurfio** – Cyhoeddir manylion anesthetigau argroenol sydd wedi eu cymeradwyo a'u hawdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ar ei **Gwefan**.

Gall deiliad y drwydded hefyd ofyn i'r cleient ddod â'r cynnyrch a'r deunydd pacio gydag ef, gan gynnwys y Daflen Wybodaeth i Gleifion (PIL) i'w alluogi i gadarnhau cymeradwyaeth MHRA.

(13) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod ei weithfan yn cael ei glanhau a'i diheintio'n effeithiol rhwng pob cleient pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol, neu pan fo halogiad o'r fath yn debygol.

**Sut i gydymffurfio** – Mae'r weithfan yn cynnwys:

- gwely, cadair neu debyg i'r cleient,
- cadair neu stôl i ddeiliad y drwydded os oes angen,
- arwyneb gwaith ar gyfer defnyddio a storio offer a chynhyrchion i roi'r driniaeth arbennig, ac
- mae'n rhan o'r man gwaith triniaethau arbennig.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 12 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** sy'n rhoi rhagor o fanylion am sut a phryd i lanhau a diheintio gweithfan.

(14) Rhaid i bob triniaeth arbennig gael ei rhoi mewn amgylchedd preifat sy'n briodol ar gyfer y driniaeth arbennig a roddir.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded drafod materion preifatrwydd gyda'r cleient cyn rhoi'r driniaeth. Dylai preifatrwydd priodol ystyried safle'r driniaeth a dymuniadau'r cleient.

(15) Ni chaiff deiliad y drwydded ganiatáu i gleient ddod ag unigolyn arall gydag ef os nad yw presenoldeb yr unigolyn arall hwnnw yn ystod y driniaeth arbennig yn peri risg uwch o haint.

**Sut i gydymffurfio** – Mae gweithfannau a'r mannau gwaith triniaethau arbennig yn gyfyng o ran lle. Dim ond deiliad y drwydded a'r cleient ddylai fod yn ardal y weithfan. Os yw'r cleient wedi gofyn am i unigolyn arall fod yn bresennol, er enghraifft, rhiant neu warcheidwad, neu weithiwr gofal, yn ystod y driniaeth arbennig, dim ond os oes digon o le yn y man gwaith triniaethau arbennig fel na fydd yr unigolyn yn rhwystro deiliad y drwydded rhag rhoi'r driniaeth arbennig honno yn ddiogel ac yn hylan, ac na fydd yn cynyddu'r risg o haint, y dylai deiliad y drwydded ganiatáu hyn.

(16) Ni chaiff deiliad y drwydded ganiatáu i anifeiliaid ddod i'r man gwaith triniaethau arbennig ac eithrio cŵn cymorth cofrestredig sy'n dod gyda chleient.

**Sut i gydymffurfio** – Dim ond cŵn cymorth cofrestredig a ganiateir. Mae ci cymorth wedi cael hyfforddiant penodol ac fe'i diffinnir o dan adran 173 o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**.

## 6. Gosodiadau a Ffitiadau

**Mae Amod 6 yn cynnwys 2 ofyniad sy'n ymwneud â gosodiadau a ffitiadau.**

**Mae 'gosodiadau' yn cynnwys unrhyw wrthrych sydd wedi ei osod neu ynghlwm wrth strwythur y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd, er enghraifft, ffenestri, drysau, goleuadau, cypyrddau ac ati.**

**Mae 'ffitiadau' yn wrthrychau annibynnol, er enghraifft, dodrefn, cadeiriau, unedau storio symudol ac ati.**

(1) Mae unrhyw osodiad neu ddodrefnyn a ddefnyddir gan y cleient wrth roi'r driniaeth arbennig iddo i'w orchuddio â dalen bapur dafladwy, lliain neu gyffelyb, sydd i'w newid rhwng pob cleient pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol.

**Sut i gydymffurfio** – Mae hyn yn cyfeirio at y gadair, y gwely neu rywbeth tebyg a ddefnyddir gan y cleient yn ystod y driniaeth arbennig a, lle defnyddir lliain neu gyffelyb, dylai fod yn dafladwy.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 12 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

(2) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod yr holl osodiadau, ffitiadau ac eitemau o ddodrefn sy'n gysylltiedig â'i weithfan wedi eu gwneud o ddeunydd difandwll ac mewn cyflwr da i alluogi gwaith glanhau a, lle mae halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol, waith diheintio effeithiol.

**Sut i gydymffurfio** – Mae "deunydd difandwll" yn ddeunydd nad yw'n caniatáu i hylif neu aer basio drwyddo. Mae enghreifftiau'n cynnwys plastig caled, metel, gwydr a serameg. Mae'r deunyddiau hyn yn haws eu glanhau a'u diheintio, ond dim ond os ydynt mewn cyflwr da.

Rhaid i ddeiliad y drwydded fod yn fodlon bod gosodiadau a ffitiadau ei weithfan wedi eu gwneud o ddeunydd difandwll a bod y deunydd mewn cyflwr da i alluogi gwaith glanhau a, lle bo angen, waith diheintio effeithiol.

## 7. Cyfarpar ac Offerynnau

**Mae Amod 7 yn cynnwys 10 rhan ac mae'n ymwneud â chyfarpar ac offerynnau:**

(1) Rhaid i'r holl gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded:

(a) cael eu defnyddio a'u cynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a

(b) cael eu gwasanaethu a'u dilysu'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a rhaid cadw a chynnal yr holl gofnodion gwasanaethu a dilysu ar gyfer eu harolygu gan swyddog awdurdodedig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y drwydded ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer defnyddio a chynnal unrhyw gyfarpar, offerynnau neu gynhyrchion y mae'n eu defnyddio wrth baratoi neu roi triniaeth arbennig.

Bydd angen gwasanaethu a dilysu rhai cyfarpar, offerynnau a chynhyrchion. Rhaid gwneud hyn yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a rhaid i ddeiliad y drwydded gadw'r holl gofnodion hyn yn gyfredol ac ar gael i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig. Argymhellir y dylid cadw cofnodion am o leiaf dair blynedd.

(2) Rhaid i'r holl offerynnau a chyfarpar a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded fod wedi eu gwneud o ddeunydd difandwll y gellir ei lanhau, ei ddiheintio a, phan fo'n briodol, ei sterileiddio yn hawdd.

**Sut i gydymffurfio** – Mae deunydd difandwll yn ddeunydd nad yw'n caniatáu i hylif neu aer basio drwyddo. Mae enghreifftiau'n cynnwys plastig caled, metel, gwydr a serameg. Mae'r deunyddiau hyn yn haws eu glanhau a'u diheintio a, lle bo angen, eu sterileiddio.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 12 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

(3) Rhaid cadw offerynnau a chyfarpar mewn cyflwr da i alluogi gwaith glanhau effeithiol a rhaid eu defnyddio a'u storio mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o halogiad.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw ei offerynnau a'i gyfarpar mewn cyflwr da. Ni fydd cyfarpar/offerynnau sydd wedi eu difrodi a'u cynnal a chadw'n wael yn gallu cael eu glanhau a'u diheintio'n effeithiol.

Rhaid i ddeiliad y drwydded ddefnyddio ei offerynnau a'i gyfarpar at y diben y'u bwriadwyd, a dylid storio'r eitemau hyn mewn amgylchedd sy'n lân ac wedi ei ddiogelu rhag halogi.

(4) Ni chaiff deiliad y drwydded byth ailddefnyddio nac ailbrosesu eitemau untro.

**Sut i gydymffurfio** – Dim ond unwaith y dylid defnyddio eitemau untro, er enghraifft, nodwyddau, raseli, menyg a ffedogau.

(5) Ni chaiff deiliad y drwydded ond defnyddio nodwyddau di-haint, untro, tafladwy.

**Sut i gydymffurfio** – Dim ond nodwyddau di-haint, untro, tafladwy y dylai deiliad y drwydded eu defnyddio.

(6) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau, o ran unrhyw gyfarpar nad yw'n dafladwy, na ellir ei sterileiddio, ac sy'n debygol o ddod i gysylltiad â hylifau corfforol neu safle'r driniaeth arbennig, nad yw'n dod i gysylltiad o'r fath. Rhaid glanhau a diheintio cyfarpar o'r fath yn drylwyr ar ôl pob defnydd.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid diogelu offer o'r fath a fyddai'n cynnwys offerynnau tyllu ac ati yn effeithiol rhag dod i gysylltiad â safle'r driniaeth arbennig a chyswllt posibl â gwaed neu hylif corfforol gan ddefnyddio gweiniau neu orchuddion difandwll tebyg. Ar ôl eu defnyddio, dylai deiliad y drwydded dynnu a gwaredu'r gorchuddion yn ddiogel, a rhaid iddo lanhau a diheintio'r cyfarpar yn effeithiol cyn gorchuddio a defnyddio'r cyfarpar ar gleient arall.

(7) Os defnyddir offerynnau nad ydynt yn rhai tafladwy wrth roi triniaeth arbennig a'u bod yn debygol o ddod i gysylltiad â hylifau corfforol neu safle'r driniaeth arbennig, ar ôl eu defnyddio rhaid i ddeiliad y drwydded lanhau a thrin yr offerynnau. Rhaid glanhau a thrin yr offerynnau â chyfarpar glanhau, diheintio a sterileiddio sy'n addas i'r diben megis glanhawyr uwchsain, baddonau offerynnau ac awtoclafau a chydau awtoclaf. Nid yw hyn yn gymwys i nodwyddau (gweler paragraff 7(5)).

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod yr holl offerynnau nad ydynt yn dafladwy ac sy'n dod i gysylltiad â safle'r driniaeth arbennig neu hylifau'r corff yn cael eu glanhau, eu diheintio a'u sterileiddio ar ôl eu defnyddio. Rhaid i'r cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer glanhau, diheintio a sterileiddio fod yn addas i'r diben. Mae dihalogi yn cynnwys glanhau, diheintio a sterileiddio.

Mae "addas i'r diben" yn golygu bod cyfarpar yn cael ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 12 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

Nid yw'r amod hwn yn berthnasol i nodwyddau gan y gwaherddir eu hailddefnyddio.

(8) Rhaid sterileiddio unrhyw offeryn, unrhyw gyfarpar, unrhyw emwaith, neu unrhyw wrthrych sy'n cael ei atodi i groen neu bilen fwcaidd y cleient neu sy'n cael ei fewnblannu neu ei fewnosod yn ei groen neu ei bilen fwcaidd.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded gadw cofnodion i'r perwyl hwn. Os oes gan ddeiliad y drwydded unrhyw amheuaeth bod sterileiddio wedi ei beryglu, er enghraifft, os cyrhaeddwyd y dyddiad dod i ben ar gyfer sterileiddio, bod y deunydd pacio wedi ei ddifrodi neu ei rwygo neu fod y sêl yn ddiffygiol, ni ddylid defnyddio'r offeryn, y cyfarpar, y gemwaith neu'r gwrthrych a dylid naill ai ei waredu neu ei ailsterileiddio yn ddiogel gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

(9) Rhaid sterileiddio unrhyw offeryn neu unrhyw gyfarpar a ddefnyddir i dynnu gemwaith neu wrthrych sydd wedi ei atodi i groen neu bilen fwcaidd y cleient neu sy'n cael ei fewnblannu neu ei fewnosod yn ei groen neu ei bilen fwcaidd.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded gadw cofnodion i'r perwyl hwn ac, os oes unrhyw amheuaeth ynghylch sterileiddio neu os oes tystiolaeth y gallai sterileiddio fod wedi ei beryglu, ni ddylid defnyddio'r offeryn neu'r cyfarpar a ddefnyddir i dynnu'r gemwaith neu'r gwrthrych a naill ai ei waredu neu ei ailsterileiddio yn ddiogel gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

(10) Rhaid i ddeiliad y drwydded allu cael gafael ar becyn cymorth cyntaf sydd wedi ei stocio'n addas, sydd ar gael yn rhwydd, i ddiwallu anghenion cymorth cyntaf y driniaeth arbennig a roddir.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod ganddo fynediad at becyn cymorth cyntaf, sydd wedi ei stocio'n addas ac sy'n diwallu anghenion y driniaeth arbennig y mae wedi ei drwyddedu i'w rhoi. Mae'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)** yn rhoi cyngor pellach ar gymorth cyntaf a allai fod o gymorth i ddeiliaid trwydded.

## 8. Gwastraff

**Mae Amod 8 yn ymwneud â gwastraff ac mae'n cynnwys 2 ofyniad:**

(1) Rhaid gwaredu pob offeryn miniog mewn bin offer miniog. Rhaid cadw a defnyddio'r bin offer miniog yn y man gwaith triniaethau arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Mae "offer miniog" yn cynnwys gwrthrychau neu offerynnau sy'n gallu torri, crafu, tyllu neu achosi anaf i'r croen ac mae'n cynnwys pob math o nodwyddau a raseli untro. Byddai llafnau ac eitemau sydd â phwynt neu ymyl miniog hefyd yn cael eu cynnwys.

Mae'r "bin offer miniog" yn golygu cynhwysydd anhyblyg, arbenigol sy'n cydymffurfio â'r cod EWC 20 01 99 a ddyluniwyd i waredu offer miniog sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig yn ddiogel.

Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y bin offer miniog yn cael ei gadw yn y man gwaith triniaethau arbennig a'i fod yn hawdd ei gyrraedd o'r weithfan.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 10.4 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

(2) Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus yn cael ei wahanu'n briodol a'i roi yn y bagiau lliw cywir. Rhaid i ddeiliad y drwydded wneud trefniadau ar gyfer gwaredu'r bagiau lliw hynny.

**Sut i gydymffurfio** – Mae "gwneud trefniadau" yn y cyd-destun hwn yn cynnwys trefnu, paratoi a chynllunio ar gyfer gwaredu'r bagiau lliw a gallai gynnwys bod â chontract gwastraff ffurfiol.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 10 o **Ganllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

Pennod 7

# Amodau trwyddedu mandadol: Tyllu'r Corff

## Cyfeiriad: Rheoliad 7(3) o Reoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024 (nodir yr amodau yn Atodlen 5)

**Mae Amod 1 yn gwahardd defnyddio sgalpel:**

Gwaherddir deiliad y drwydded rhag defnyddio sgalpel i dyllu'r corff.

**Sut i gydymffurfio** – Offeryn meddygol â llafn yw "sgalpel" a ddefnyddir yn gyffredin gan weithwyr meddygol proffesiynol hyfforddedig i wneud toriadau i feinwe'r corff. Gall sgalpel gynnwys handlen y gellir ei hailddefnyddio a llafn tafladwy, ond gall hefyd fod yn offeryn cyfan tafladwy. Gwaherddir deiliaid trwydded rhag ei ddefnyddio.

Mae'n bwysig nodi bod 'tyllu'r corff' yn cynnwys **tynnu** gemwaith neu wrthrychau o gorff unigolyn yn ogystal â'u hatodi i gorff unigolyn a'u mewnblannu yng nghorff yr unigolyn.

**Mae Amod 2 yn nodi'r gofynion yn ymwneud â menyg**

Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg wrth roi'r driniaeth arbennig. O ran y menyg a wisgir gan ddeiliad y drwydded, rhaid iddynt fod y rhai sy'n ffitio orau, sy'n cynnig y deheurwydd gorau ac sy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus, a rhaid iddynt gynnig rhwystr amddiffynnol da. Pan fo modd gwisgo menyg latecs, rhaid i'r menyg latecs fod yn rhai protein isel heb eu powdro. Os oes gan y cleient alergedd hysbys i latecs, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg eraill addas nad ydynt yn cynnwys latecs.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded fodloni ei hun bod y menyg y mae'n eu defnyddio wrth roi triniaeth tyllu'r corff yn gwneud y pethau canlynol yn effeithiol:

- ei amddiffyn rhag dod i gysylltiad â gwaed a hylifau corfforol,
- ei alluogi i dyllu'r croen neu'r bilen fwcaidd yn ddiogel, ac
- nad ydynt yn arwain at adwaith alergaidd i'r cleient neu iddo'i hun.

Ni ddylai ffitiad a chyfansoddiad y menyg amharu ar symudiad y llaw a'r bysedd wrth roi triniaeth tyllu'r corff.

Caniateir gwisgo menyg latecs lle nad oes alergedd tebygol neu hysbys i latecs.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 7.1 o ddogfen Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael rhagor o wybodaeth.

**Mae Amod 3 yn nodi'r gofynion yn ymwneud â defnyddio menyg**

Rhaid tynnu menyg a'u gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben. Rhaid tynnu menyg, eu gwaredu a gwisgo rhai eraill yn eu lle pan fo egwyl yn ystod y cyfnod o amser pan roddir y driniaeth arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Rhaid i fenig gael eu gwisgo unwaith yn unig a rhaid eu gwaredu'n ddiogel.

Ystyr "egwyl yn ystod y cyfnod o amser" yw unrhyw egwyl, waeth pa mor fyr, yn y driniaeth arbennig, er enghraifft, i ddefnyddio'r toiled neu i fwyta neu yfed.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adrannau 7.1.3 a 7.1.4 o ddogfen **Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

**Mae Amod 4 yn nodi'r gofynion yn ymwneud â defnyddio ffedogau tafladwy**

Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo ffedog untro, dafladwy wrth roi'r driniaeth arbennig pan fo risg o halogiad gan waed neu hylifau corfforol (neu'r ddau). Rhaid tynnu'r ffedog a'i gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben. Rhaid tynnu'r ffedog, ei gwaredu a gwisgo un arall yn ei lle pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.

**Sut i gydymffurfio** – Mae triniaeth tyllu'r corff sy'n fwy tebygol o arwain at risg o halogi gan waed a/neu hylifau'r corff yn cynnwys rhai triniaethau tyllu'r wyneb lle mae mwy o bibellau gwaed yn agos at wyneb y croen a rhai triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. O dan yr amgylchiadau hyn, dylid defnyddio ffedog dafladwy.

Dylai'r ffedog fod wedi ei chlymu'n ddiogel wrth roi triniaeth tyllu'r corff.

Ystyr "egwyl" yw unrhyw egwyl, waeth pa mor fyr, yn y driniaeth arbennig, er enghraifft, i ddefnyddio'r toiled neu i fwyta neu yfed.

**Mae Amod 5 yn nodi'r gofynion ar gyfer gemwaith, gwrthrychau ac offerynnau**

Rhaid i'r holl emwaith, gwrthrychau neu offerynnau a all ddod i gysylltiad â chroen neu bilen fwcaidd wrth dyllu'r corff, neu sy'n dod i gysylltiad agos â chroen wedi ei dyllu neu bilen fwcaidd wedi ei thyllu ar y cleient, gael eu prynu gan gyflenwyr sydd ag enw da a rhaid iddynt fod yn rhai untro a bod wedi eu sterileiddio.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded gadw tystiolaeth i gadarnhau ei fod yn defnyddio cyflenwyr ag enw da a bod y gemwaith, y gwrthrychau a'r offerynnau y mae'n eu defnyddio yn rhai untro a'u bod wedi eu sterileiddio.

**Mae Amod 6 yn nodi'r gofynion ar gyfer unrhyw offeryn a ddefnyddir at ddiben gwneud trydylliad yn y croen neu'r bilen fwcaidd**

O ran unrhyw nodwydd, canwla, pwnsh biopsi, tapr, pin neu roden gysylltu, tiwb derbyn nodwydd, blanc nodwydd, neu unrhyw offeryn arall a ddefnyddir at ddiben gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd y cleient gyda golwg ar alluogi i emwaith neu unrhyw wrthrych gael ei atodi i gorff y cleient, ei fewnblannu yng nghorff y cleient neu ei dynnu o gorff y cleient, rhaid iddynt fod wedi eu prynu gan gyflenwr ag enw da, fod yn rhai untro a bod wedi eu sterileiddio.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded gadw tystiolaeth i gadarnhau bod yr holl offerynnau y mae'n eu defnyddio er mwyn torri'r croen neu'r bilen fwcaidd yn rhai untro, wedi eu sterileiddio ac wedi eu prynu gan gyflenwr ag enw da.

**Mae Amod 7 yn nodi'r gofynion cyfansoddiad ar gyfer gemwaith a gwrthrychau**

Rhaid i'r holl emwaith neu'r holl wrthrychau a ddefnyddir ar gyfer tyllu'r corff fod o radd addas, gan gynnwys dur gwrthstaen llawfeddygol, aur 9, 14 neu 18 carat, niobiwm, titaniwm, platinwm, neu blastig trwchus â mandylledd isel.

**Sut i gydymffurfio** – Dylai deiliad y drwydded gadw tystiolaeth sy'n cadarnhau gradd a chyfansoddiad y gemwaith neu'r gwrthrychau.

**Mae Amod 8 yn nodi'r gofynion ar gyfer marcio'r croen cyn tyllu**

Os oes angen marcio'r rhan o'r croen sydd i'w thyllu, rhaid defnyddio pin ysgrifennu dyfrsail untro neu farcwyr untro. Rhaid gwaredu'r teclyn neu'r pin ysgrifennu yn syth ar ôl ei ddefnyddio.

**Sut i gydymffurfio** – Dylid defnyddio pinnau neu offerynnau untro a rhaid gwaredu'r rhain yn syth ar ôl eu defnyddio.

**Mae Amod 9 yn nodi'r gofynion pan ddefnyddir system cetris neu offeryn tebyg i dyllu'r croen**

Os yw deiliad y drwydded yn defnyddio system cetris ar gyfer tyllu'r corff —

(a) rhaid iddo ddefnyddio cetrisen ddi-haint,

(b) rhaid iddo ddefnyddio gemwaith neu wrthrychau wedi eu sterileiddio a gyflenwir mewn pecynwaith wedi ei selio sy'n dangos ar ba ran o'r corff y bwriedir iddynt gael eu defnyddio,

(c) rhaid iddo gynnal cofnodion i gadarnhau bod y getrisen ddi-haint a'r gemwaith neu'r gwrthrych sydd wedi ei sterileiddio yn gyflawn,

(d) mewn perthynas â thyllu clustiau a'r trwyn, rhaid iddo ddefnyddio cetris sydd wedi eu selio, cyn y dyddiad dod i ben, a rhaid iddynt fod mewn cyflwr da cyn cael eu defnyddio,

(e) rhaid iddo daflu unrhyw getris o becynnau sydd wedi eu difrodi neu sy'n cynnwys pothelli, ac ni chaiff ddefnyddio'r rhain,

(f) ni chaiff ail-lwytho cetrisen dafladwy a'i defnyddio ar gyfer gwneud amryw o dyllau, pa un ai ar yr un cleient ai peidio,

(g) rhaid iddo sicrhau bod offeryn tyllu y gellir ei ailddefnyddio yn cael ei lanhau ac yna ei ddiheintio a'i sterileiddio cyn ac ar ôl pob defnydd, ac

(h) ni chaiff ddefnyddio offerynnau tyllu y gellir eu hailddefnyddio ac eithrio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr (gan gynnwys y cyfarwyddiadau hynny ynghylch sut i lwytho a dadlwytho'r cetris).

**Sut i gydymffurfio** – Gall deiliaid trwydded ddilysu cyfanrwydd y getrisen ddi-haint a'r gemwaith neu'r gwrthrych wedi ei sterileiddio drwy archwilio pecynwaith y cynnyrch am ddiffygion cyn ei defnyddio a chofnodi'r cam hwn ar gofnodion y cleient. Gellir dod o hyd i wybodaeth sicrhau ansawdd berthnasol sy'n ymwneud â'r sterileiddio hefyd ar becynwaith y cynhyrchion sydd i'w defnyddio, a dylai deiliad y drwydded gofnodi'r wybodaeth hon ar gofnodion y cleient. Gall deiliad y drwydded hefyd ofyn am wybodaeth yn uniongyrchol gan y gwneuthurwr os oes unrhyw amheuaeth ynghylch cyfanrwydd y cynhyrchion.

Bydd gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr ag enw da yn gallu darparu'r wybodaeth sicrhau ansawdd angenrheidiol.

Efallai y bydd deiliaid trwydded yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at adran 12.5 o ddogfen **Canllawiau Atal a Rheoli Haint Iechyd Cyhoeddus Cymru** i gael rhagor o wybodaeth am ddosbarthiad cyfarpar a'r dull dihalogi.

Pennod 8

# Pwerau awdurdodau lleol, troseddau a gorfodi

## 8.1 Pwerau awdurdodau lleol

Mae **adrannau 83-92** o'r Ddeddf yn nodi'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol at ddibenion gorfodi, a'r telerau y mae'n rhaid arfer y pwerau hyn oddi tanynt.

Mae'r pwerau'n berthnasol i unrhyw fangre lle mae triniaethau arbennig wedi eu rhoi, yn cael eu rhoi neu'n debygol o gael eu rhoi yn y fangre honno, neu pan fo unrhyw ddeunydd neu gyfarpar y bwriedir ei ddefnyddio mewn triniaethau arbennig yn cael ei storio neu ei baratoi yn y fangre.

Mae'r adrannau hyn yn diffinio swyddogion awdurdodedig at ddiben y Ddeddf ac yn ymdrin â phwerau sy'n ymwneud ag ymchwilio i driniaethau arbennig a'u gorfodi, gan gynnwys:

**Swyddogion awdurdodedig (adran 83)** – Yn cadarnhau bod cyfeiriadau at swyddogion awdurdodedig yn adrannau 84 i 92 yn gyfeiriadau at unrhyw berson sydd wedi ei awdurdodi i arfer swyddogaethau awdurdod lleol, p'un a yw'n swyddog yr awdurdod lleol ai peidio.

**Pwerau mynediad (adran 84)** – Yn galluogi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i fangre (ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd) ar unrhyw adeg resymol, os oes gan y swyddog reswm dros gredu bod triniaeth arbennig wedi ei rhoi, yn cael ei rhoi neu'n debygol o gael ei rhoi yn y fangre, neu fod deunydd neu gyfarpar sy'n ymwneud â thriniaeth arbennig yn cael ei gadw neu ei baratoi yn y fangre. Nid yw'r pŵer i fynd i mewn i fangre yn galluogi'r swyddog i fynd i mewn drwy rym. Os yw'n ofynnol, rhaid i swyddog ddangos tystiolaeth o'i awdurdodiad cyn mynd i mewn i'r fangre. Mae'r pŵer mynediad hefyd yn gymwys i gerbyd. Rhaid i swyddogion roi sylw i God Ymarfer B PACE (Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol) wrth arfer eu swyddogaethau gorfodi.

**Gwarant i fynd i mewn i annedd (adran 85)** – Os oes angen mynediad i fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd ar gyfer gorfodi, rhaid i'r ALl wneud cais ysgrifenedig i ynad heddwch. Gall ynad heddwch ddyroddi gwarant, a thrwy hynny awdurdodi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r annedd, a hynny drwy rym os oes angen. Bydd gwarant mewn grym am 28 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y cafodd ei llofnodi gan yr ynad heddwch. Mae hyn hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill (adran 86)** – Os yw mynediad i fangre nad yw'n cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd yn angenrheidiol, mae'r adran hon yn galluogi ynad heddwch i ddyroddi gwarant gan awdurdodi unrhyw swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre, a hynny drwy rym os oes angen. Rhaid i'r fangre y mae mynediad iddi yn cael ei geisio gael ei defnyddio at ddibenion busnes, neu ar gyfer busnes ac fel annedd. Os yw mangre yn cael ei defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd, mae adran 85 yn gymwys. Er mwyn dyroddi gwarant, rhaid bodloni un neu ragor o'r gofynion. Mae'r rhain yn cynnwys os yw cais i fynd i mewn i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi; os yw cais i fynd i mewn i'r fangre, neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais

am warant yn debygol o danseilio diben y mynediad; os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu; neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro a bod aros iddo ddychwelyd yn debygol o danseilio diben y mynediad. Bydd gwarant mewn grym am 28 diwrnod gan ddechrau ar y dyddiad y cafodd ei llofnodi gan yr ynad heddwch. Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Cael gwarantau i fynd i mewn i annedd neu fangreoedd eraill (adran 87)** – Yn galluogi swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan adrannau 84, 85 neu 86 i fynd ag unrhyw bersonau eraill neu unrhyw gyfarpar y mae'r swyddog yn ystyried ei fod yn briodol e.e. cyfarpar a ddefnyddir i archwilio cofnodion electronig. Os yw meddiannydd y fangre y mae swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i fynd iddi o dan adran 85 neu 86 yn bresennol ar yr adeg y mae'r swyddog yn ceisio gweithredu'r warant, rhaid rhoi enw'r swyddog i'r meddiannydd; rhaid i'r swyddog gyflwyno i'r meddiannydd dystiolaeth ddogfennol bod y swyddog yn swyddog awdurdodedig; rhaid i'r swyddog gyflwyno'r warant i'r meddiannydd a chyflenwi copi ohoni i'r meddiannydd. Os nad yw'r fangre wedi ei meddiannu neu os yw'r meddiannydd yn absennol dros dro, wrth adael y fangre rhaid i'r swyddog ei gadael wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth y swyddog iddi. Mae'r darpariaethau yn yr adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Pwerau arolygu ac archwilio eitemau yn y fangre (adran 88)** – Unwaith y bydd swyddog awdurdodedig wedi cael mynediad i fangre, caiff gynnal arolygiadau ac archwiliadau at ddibenion swyddogaethau'r ALl mewn perthynas â thriniaethau arbennig. Mae hyn yn cynnwys arolygu ac archwilio'r fangre, edrych ar gofnodion teledu cylch cyfyng a'u cadw a chael copïau o ddogfennau, megis cofnodion triniaeth a dogfennau cydsyniad. Efallai y bydd y swyddog yn gofyn am gynhyrchu/cymryd meddiant o unrhyw beth a'i gadw cyhyd ag y bo angen i arfer y swyddogaethau hynny. Rhaid i'r swyddog adael datganiad yn y fangre sy'n rhestru'r hyn sydd wedi ei gymryd, a nodi'r person y gellir gwneud cais iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd. Efallai y bydd y swyddog hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybodaeth iddo, neu gyfleusterau a chymorth, gan gynnwys darparu cyfrif o ddigwyddiadau neu gyflenwi gwybodaeth sy'n cael ei storio ar gyfrifiadur. Mae'r adran hon hefyd yn gymwys i gerbyd.

**Rhwystro etc. swyddogion (adran 89)** – Mae person yn cyflawni trosedd os yw'n rhwystro'n fwriadol unrhyw swyddog awdurdodedig rhag arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 84-88 o'r Ddeddf; yn methu, heb achos rhesymol, â darparu neu gydymffurfio â gofynion o dan adran 88 o'r Ddeddf. Bydd person yn cyflawni trosedd os bydd yn methu â chydymffurfio â materion penodol sy'n berthnasol i adran 88(1) o'r Ddeddf ac yn gwneud hynny heb achos rhesymol. Gall hyn gynnwys methu â darparu cyfleusterau neu gymorth, cynhyrchu eitemau i'w harchwilio neu ddarparu gwybodaeth. Os caiff person ei ganfod yn euog, bydd yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, sef £1,000 ar hyn o bryd.

**Pŵer i wneud pryniannau prawf (adran 90)** – Caiff swyddog awdurdodedig wneud unrhyw bryniannau a threfniadau, a sicrhau darpariaeth unrhyw wasanaethau, y mae'r swyddog yn ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddiben arfer swyddogaethau'r ALl. Mae hyn yn cynnwys cael cymorth person i ganfod a yw triniaeth arbennig yn cael ei rhoi mewn mangre neu gerbyd yn groes i'r gofynion.

**Eiddo a gedwir: apelau (adran 91)** – Diogelwch ychwanegol sy'n ymwneud â'r darpariaethau pwerau mynediad ac arolygu. Mae'n galluogi person a chanddo fuddiant mewn unrhyw beth y mae swyddog awdurdodedig yn mynd ymaith ag ef o'r fangre o dan adran 88(1)(c) o'r Ddeddf i wneud cais i lys ynadon am orchymyn sy'n gofyn i'r eiddo gael ei ryddhau.

**Eiddo a gyfeddir: digolledu (adran 92)** – Caiff person y mae cymryd meddiant o eiddo o dan adran 88(1)(c) o'r Ddeddf yn effeithio arno wneud cais i lys ynadon i gael ei ddigolledu. Gall y llys orchymyn i'r ALl ddigolledu h.y. os yw'r person wedi dioddef colled neu ddifrod o ganlyniad ac nad yw'r golled neu'r difrod oherwydd ei esgeulustod neu ei fethiant i weithredu.

## 8.2 Troseddau

Mae **adran 82** o'r Ddeddf yn amlinellu'r troseddau sy'n ymwneud ag amryw achosion o dorri'r darpariaethau ar gyfer trwyddedu a chymeradwyo triniaethau arbennig. Y troseddau yw:

- Torri adran 58 – rhoi triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf heb fod â thrwydded triniaeth arbennig pan nad yw wedi ei esemptio.
- Torri adran 61(3)(c) – rhoi triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf pan fo gwaharddiad ar waith.
- Torri adran 69(2) – rhoi triniaeth arbennig a bennir yn y Ddeddf mewn mangre neu gerbyd nad oes ganddo'r dystysgrif gymeradwyo briodol ar gyfer mangre/cerbyd (heb achos rhesymol).
- Parhau i roi triniaethau arbennig neu weithredu o fangre neu gerbyd heb y drwydded/dystysgrif gymeradwyo ar gyfer mangre berthnasol pan fo hysbysiad stop o dan adran 77 ar waith (heb achos rhesymol).
- Torri (heb achos rhesymol) hysbysiad camau adfer i ddeiliad trwydded a gyflwynwyd o dan adran 78.
- Torri (heb achos rhesymol) hysbysiad camau adfer ar gyfer mangre/cerbyd a gyflwynwyd o dan adran 79.
- Gwneud datganiad anwir neu gamarweiniol (naill ai'n fwriadol neu'n ddi-hid) wrth wneud cais am ddyroddi, amrywio neu adnewyddu trwydded triniaeth arbennig neu i gymeradwyo tystysgrif mangre/cerbyd.
- Mae'r datganiadau anwir neu gamarweiniol mewn perthynas ag unrhyw beth a fyddai fel arall yn achosi i'r awdurdod lleol beidio â rhoi'r drwydded/tystysgrif, yr amrywiad neu'r adnewyddiad (er enghraifft, gwneud datganiad anwir ynghylch euogfarn am drosedd berthnasol).

Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan adran 82 o'r Ddeddf yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

## 8.3 Camau gweithredu sydd ar gael i awdurdodau lleol lle nodir troseddau

**Adran 61 Dynodi unigolyn at ddibenion adran 58(3)** – Yn galluogi ALl i roi hysbysiad i unigolyn sy'n ei ddynodi fel person y mae angen trwydded triniaeth arbennig arno os yw'n bwriadu rhoi triniaeth arbennig benodedig, cyn belled bod yr amod yn adran 61(2) o'r Ddeddf wedi ei fodloni.

Mae nifer o gydrannau:

- bod y person yn debygol o roi'r driniaeth i rywun arall yng Nghymru,
- bod y driniaeth fel y mae'n debygol o gael ei rhoi gan y person yn y fath fodd yn peri risg sylweddol, neu y gallai beri risg sylweddol, o niwed i iechyd dynol, ac
- er mwyn dileu neu leihau'r risg honno, ei bod yn briodol dynodi'r person fel rhywun sydd angen trwydded.

Nid yw gallu'r ALl i ddynodi'r person yn dibynnu ar y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi fel rhan o weithgarwch busnes; felly, gall person sy'n rhoi triniaeth arbennig o dan unrhyw amgylchiadau ac at unrhyw ddiben (e.e. o'r cartref ac nid am dâl) gael ei ddynodi.

**Adran 77 Hysbysiadau stop** – Os yw'r ALl yn ymwybodol o unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig heb drwydded, neu sy'n cynnal busnes o fangre neu gerbyd nad yw wedi ei chymeradwyo neu ei gymeradwyo, caiff yr ALl ddyroddi hysbysiad stop i'r unigolyn hwnnw. Y nod yw gwahardd rhoi'r driniaeth arbennig a bennir yn yr hysbysiad. Mae torri'r hysbysiad stop yn drosedd (adran 82(4)). Bydd yr hysbysiad stop yn gymwys yn unrhyw le yng Nghymru a bydd yn effeithiol hyd nes y bydd y person yn cael y drwydded neu'r gymeradwyaeth berthnasol.

**Adran 78 Trwyddedau triniaeth arbennig: hysbysiadau camau adfer i ddeiliad trwydded** – Os daw ALl yn ymwybodol bod deiliad trwydded yn torri amod trwyddedu mandadol, caiff ddyroddi hysbysiad camau adfer (RAN) i ddeiliad y drwydded. Caiff y gwaharddiad ymwneud â rhoi'r driniaeth arbennig mewn ardal yng Nghymru (e.e. ardal yr ALl) neu ym mhob rhan o Gymru. Mae torri'r hysbysiad camau adfer yn drosedd (adran 82(5)). Yn ychwanegol at y RAN, caiff yr ALl hefyd ddirymu trwydded os yw deiliad y drwydded yn methu â chydymffurfio ag amod trwyddedu mandadol cymwys.

**Adran 79 Mangreoedd a cherbydau a gymeradwywyd: hysbysiadau camau adfer ar gyfer mangre** – Caiff ALl ddyroddi RAN i berson mewn perthynas â mangre neu gerbyd a gymeradwywyd os wedi ei fodloni bod y person yn torri amod cymeradwyo mandadol. Rhaid i'r ALl gymryd camau rhesymol i ddwyn yr hysbysiad i sylw unrhyw un sy'n debygol o gael ei effeithio ganddo (e.e. deiliaid trwydded a restrir fel rhai sy'n gweithredu o'r fangre/cerbyd) i sicrhau nad yw pobl sy'n rhoi triniaethau arbennig o'r fangre neu'r cerbyd yn cyflawni trosedd anfwriadol drwy dorri'r gwaharddiad. Mae torri'r RAN yn drosedd (adran 82(6)). Yn ychwanegol at y RAN, caiff yr ALl hefyd ddirymu cymeradwyaeth i fangre neu gerbyd os yw'r person yn methu â chydymffurfio ag amod cymeradwyo mandadol.

**Adran 80 Tystysgrif gwblhau** – Os yw ALl wedi ei fodloni bod person wedi cymryd y camau a bennir mewn RAN (adrannau 78 neu 79 o'r Ddeddf), rhaid iddo ddarparu tystysgrif gwblhau sy'n rhyddhau'r hysbysiad. Rhaid i'r ALl gymryd camau rhesymol i ddwyn y dystysgrif gwblhau neu'r hysbysiad i sylw unrhyw un y mae'n meddwl ei fod yn debygol o effeithio arnynt. Gall person sy'n ddarostyngedig i RAN wneud cais i'r ALl am dystysgrif gwblhau ar unrhyw adeg. Os yw ALl yn gwrthod y cais, rhaid iddo roi hysbysiad i'r person hwnnw (gan gynnwys rhesymau dros wrthod a gwybodaeth am y broses apelio fel y nodir yn adran 81).

**Adran 81 Apelau** – Mae adran 81 o'r Ddeddf yn nodi hawl person i apelio i'r llys ynadon yn erbyn penderfyniad ALl o dan adrannau 77, 78 neu 79 o'r Ddeddf, yn ogystal ag apêl yn erbyn penderfyniad yr ALl i wrthod cais am dystysgrif gwblhau (adran 80(5)). Caniateir i apêl gan y naill barti neu'r llall yn erbyn penderfyniad llys ynadon ar apêl o dan yr adran hon gael ei dwyn gerbron Llys y Goron.

# Atodiad 1 – Unigolion sydd wedi eu hesemptio

Mae **adran 60** o'r Ddeddf yn amlinellu'r amgylchiadau lle mae unigolyn a reoleiddir gan gyrff proffesiynol penodol wedi ei esemptio o'r gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig i roi'r pedair triniaeth arbennig a enwir (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio). Mae'r cyrff gofal iechyd proffesiynol hyn wedi eu rhestru isod:

(a) y Cyngor Meddygol Cyffredinol

(b) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

(c) y Cyngor Optegol Cyffredinol

(d) y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

(e) y Cyngor Ciropractig Cyffredinol

(f) y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

(g) yn ddarostyngedig i adran 26(6), Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon

(ga) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Mae Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 yn **diffinio** pob un o'r proffesiynau gofal iechyd hynny ac yn rhoi manylion ynghylch a ydynt wedi eu hesemptio ai peidio rhag rhoi triniaethau arbennig gyda thrwydded triniaeth arbennig:

## Ddim wedi eu hesemptio

Os ydych chi'n un o'r proffesiynau canlynol (fel y'u **diffinnir** yn y Rheoliadau):

- Optegydd cyflenwi
- Optometrydd
- Fferyllydd
- Technegydd fferyllfa
- Myfyriwr-optegydd cyflenwi
- Myfyriwr-optometrydd
- Myfyriwr-fferyllydd
- Ymarferydd meddygol didrwydded.

A'ch bod yn rhoi unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig ddynodedig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio), **nid ydych wedi'ch esemptio ac felly bydd angen trwydded triniaeth arbennig arnoch i roi unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig ddynodedig**.

**DS:** *Bydd yn ofynnol i fferyllwyr dan hyfforddiant ym Mhrydain Fawr gael trwydded i roi triniaethau arbennig oherwydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, ac felly maent y tu allan i gwmpas y Rheoliadau. Mae myfyrwyr-fferyllwyr yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu rheoleiddio gan eu rheoleiddiwr (Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon), ond bydd hefyd yn ofynnol iddynt gael trwydded i roi triniaethau arbennig gan na fyddant wedi eu hesemptio rhag cael trwydded o dan y Rheoliadau. Mae'r bwriad a'r effaith gyfreithiol yr un peth i fyfyrwyr yng Ngogledd Iwerddon a Phrydain Fawr.*

## Wedi eu hesemptio gydag amodau – Aciwbigo, Tyllu'r Corff, Electrolysis, Tatŵio

Os ydych chi'n un o'r proffesiynau canlynol (fel y'u **diffinnir** yn y Rheoliadau):

- Proffesiynolyn gofal deintyddol
- Deintydd
- Ymarferydd meddygol trwyddedig
- Bydwraig gofrestredig
- Nyrs gofrestredig
- Cydymaith nyrsio cofrestredig.

A'ch bod yn rhoi unrhyw un o'r pedair triniaeth arbennig mewn:

(i) sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, a

(ii) nad ydych yn ddarostyngedig i unrhyw amodau, cyfyngiadau na sancsiynau ar eich cofrestriad proffesiynol mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer

**rydych wedi eich esemptio o'r gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig**.

## Wedi eu hesemptio gydag amodau: Aciwbigo

1. Os ydych yn giropractydd neu'n osteopath (fel y'u **diffinnir** yn y Rheoliadau) a'ch bod yn rhoi triniaeth aciwbigo mewn:

(i) sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, a

(ii) nad ydych yn ddarostyngedig i unrhyw amodau, cyfyngiadau na sancsiynau ar eich cofrestriad proffesiynol mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer,

**rydych wedi eich esemptio o'r gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig i roi triniaeth aciwbigo**.

2. Os ydych yn giropodydd, ffisiotherapydd neu bodiatregydd (fel y'u **diffinnir** yn y Rheoliadau) a'ch bod yn rhoi triniaeth aciwbigo mewn:

(i) sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir, a

(ii) nad ydych yn ddarostyngedig i unrhyw amodau, cyfyngiadau na sancsiynau ar eich cofrestriad proffesiynol mewn perthynas ag addasrwydd i ymarfer,

**rydych wedi eich esemptio o'r gofyniad i gael trwydded triniaeth arbennig i roi triniaeth aciwbigo**.

## Sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir

Mae Rheoliadau Unigolion sydd wedi eu Hesemptio o ran Triniaethau Arbennig (Cymru) 2024 yn **diffinio** ystyr "sefydliad gofal iechyd annibynnol a reoleiddir" at ddibenion triniaethau arbennig.

Mae "Sefydliad Gofal Iechyd Annibynnol a Reoleiddir" yn sefydliad gofal iechyd sy'n:

(a) clinig annibynnol

(b) ysbyty annibynnol

(c) practis deintyddol preifat

..... **AC sydd wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ac sy'n cael ei reoleiddio a'i arolygu ganddi**.

(a) **Mae clinig annibynnol** yn lleoliad/sefydliad a ddiffinnir gan adran 2(4) o **Ddeddf Safonau Gofal 2000**; ac a ragnodir gan **Reoliad 4** o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Mae enghreifftiau'n cynnwys clinigau lle darperir gwasanaethau gan ymarferwyr meddygol. Gall gwasanaethau a thriniaethau a ddarperir gan glinigau o'r fath hefyd gynnwys un neu fwy o'r pedair triniaeth arbennig ddynodedig.

(b) **Mae ysbyty annibynnol** yn lleoliad/sefydliad annibynnol a ddiffinnir gan adran 2(2) ac adran 2(3) o **Ddeddf Safonau Gofal 2000**; ac a ragnodir gan **Reoliad 3** o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Gall enghreifftiau gynnwys ysbytai annibynnol lle mae ystod eang o wasanaethau, triniaethau a llawdriniaethau yn cael eu darparu gan ymarferwyr meddygol/gweithwyr gofal iechyd proffesiynol megis ysbytai acíwt, hosbisau, ysbytai deintyddol, ysbytai mamolaeth ac ysbytai sy'n darparu llawdriniaethau cosmetig. Gall yr ysbytai hyn hefyd gynnig un neu ragor o'r pedair triniaeth arbennig ddynodedig.

(c) **Mae practis deintyddol preifat** yn lleoliad/sefydliad a ddiffinnir gan **Reoliad 3(1)** o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Mae enghreifftiau'n cynnwys practisau deintyddol preifat sy'n gwneud gwaith cwbl breifat yng Nghymru. Bydd y practisau hyn wedi eu cofrestru gydag AGIC, ac yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu ganddi, ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol preifat gan ddeintyddion a gyflogir yno. Gall aciwbigo gael ei gynnig/ei ddarparu gan bractisau deintyddol o'r fath er mwyn lleddfu poen i gleifion sy'n cael triniaethau deintyddol.

## Sefydliadau'r GIG

Mae sefydliadau'r GIG a gwaith y GIG yn cael eu harolygu a'u rheoleiddio gan AGIC. Nid yw lleoliadau'r GIG a gwaith y GIG yn rhan o'r cynllun trwyddedu ar gyfer triniaethau arbennig, felly nid oes angen trwydded triniaeth arbennig i ymgymryd â'r gwaith hwn, boed hynny o fewn adeilad y GIG neu wrth weithio yn y gymuned. Er enghraifft, os ydych yn ffisiotherapydd cymunedol sy'n gweithio fel ffisiotherapydd cymunedol y GIG, nid oes angen trwydded arnoch.

Os ydych yn gweithio i'r GIG ond hefyd yn rhoi triniaeth(au) arbennig yn breifat yn ogystal â'ch gwaith i'r GIG, bydd angen trwydded triniaeth arbennig arnoch i barhau â'r gwaith hwn.

## Rhoi triniaeth aciwbigo yn annedd/cartref cleient

Aciwbigo yw'r unig driniaeth arbennig y caniateir ei rhoi yn annedd/cartref cleient (a all gynnwys cartref gofal neu hosbis) ac nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol gymeradwyo annedd/cartref y cleient ar gyfer y driniaeth honno. Fodd bynnag, bydd angen i'r ymarferydd gael trwydded triniaeth arbennig ddilys i roi'r driniaeth aciwbigo yn yr achos hwn.

# Atodiad 2 – Paratoi ar gyfer cyfweliad ymgeisio

Bydd swyddog o'r awdurdod lleol yn cynnal y cyfweliad yn eich gweithle ar ddyddiad ac amser y cytunwyd arno gan y ddau ohonoch.

Yn ystod y cyfweliad hwn, gall y swyddog ofyn am gael gweld cofnodion a dogfennau sy'n gysylltiedig â chi yn rhoi triniaeth tyllu'r corff. Gallai hyn gynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- Y ffurflen ymgynghori â chleient.
- Cyngor ôl-ofal.
- Manylion y cyflenwyr rydych yn eu defnyddio ar gyfer yr holl gynhyrchion a chyfarpar.
- Eich cofrestr o ddigwyddiadau.
- Eich contract gwastraff.
- Unrhyw gofnodion gwasanaethu neu gynnal a chadw, er enghraifft, contractau awtoclafau.

Bydd y swyddog yn gofyn cwestiynau i chi am y pynciau isod. Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o gwestiynau/materion a allai gael eu gofyn/trafod:

**Rheoli heintiau a chymorth cyntaf yng nghyd-destun y driniaeth arbennig rydych yn bwriadu ei rhoi:**

- Esboniwch sut y byddech yn ymateb i anaf nodwydd.
- Beth fyddech yn ei wneud pe bai eich cleient yn teimlo ei fod yn mynd i lewygu?
- Dangoswch sut rydych yn golchi eich dwylo.
- Dangoswch sut rydych yn gwisgo a thynnu eich menyg.
- A allwch esbonio pryd y byddech yn golchi eich dwylo a phryd mae'n dderbyniol defnyddio rhwbiad llaw alcoholig?
- A allwch ddangos i mi sut rydych yn dihalogi eich offerynnau ar ôl i chi gwblhau'r driniaeth arbennig?
- Sut ydych chi'n defnyddio'r awtoclaf?

**Eich dyletswyddau fel deiliad trwydded o dan Ran 4 o'r Ddeddf:**

- Enwch rai o'ch dyletswyddau fel deiliad trwydded.

**Yr amodau trwyddedu mandadol:**

- A allwch roi rhai enghreifftiau i mi o pryd na ddylech roi triniaeth tyllu'r corff i gleient?
- Mae eich cleient wedi cael diagnosis o epilepsi yn ddiweddar, pa gamau y byddech yn eu cymryd?
- Mae cleient newydd am i'w aeliau gael eu tyllu, pa gyngor fyddech chi'n ei roi iddo?
- Mae eich cleient am i chi ddefnyddio anesthetig argroenol cyn rhoi triniaeth tyllu'r corff, beth yw eich ymateb?
- Pa fesurau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod y gemwaith a'r gwrthrychau rydych chi'n eu defnyddio ar gyfer tyllu yn ddi-haint adeg eu defnyddio?
- Pa eitemau untro ydych chi'n eu defnyddio? Beth yw manteision defnyddio'r cynhyrchion hyn?
- Dangoswch ac esboniwch i mi sut byddech yn paratoi eich gweithfan.
- Nodwch pa fasn golchi dwylo y byddwch yn ei ddefnyddio wrth weithio. Lle dylai eich gweithfan fod wedi ei lleoli?
- Pa offerynnau ydych chi'n eu defnyddio sydd wedi eu sterileiddio? Pam mae'n rhaid eu sterileiddio? A sut ydych chi'n bodloni eich hun eu bod yn ddi-haint adeg eu defnyddio?
- Dangoswch eich ewinedd.
- Pa anifeiliaid sy'n cael bod gyda chleient tra'i fod yn cael triniaeth arbennig?
- Pa fath o ddeunyddiau y dylai'r gosodiadau a'r ffitiadau fod wedi eu gwneud ohonynt a pham?

**Goblygiadau peidio â chydymffurfio â'r amodau trwyddedu mandadol:**

- Pa gamau y gall yr awdurdod lleol eu cymryd yn erbyn deiliad trwydded y canfyddir ei fod wedi torri'r amodau trwyddedu mandadol?

# Atodiad 3 – Ymgynghori â Chleient

## Ffurflen Ymgynghori â Chleient Tyllu'r Corff

Enw'r ymarferydd: ....................................................................................................................................................

Cyfeiriad e-bost yr ymarferydd/y busnes:...............................................................................................................

Rhif ffôn deiliad y drwydded/y busnes: ..................................................................................................................

Cyfeiriad y fangre: ....................................................................................................................................................

## Manylion y cleient

Enw'r cleient: ...........................................................................................................................................................

Cyfeiriad y cleient: ...................................................................................................................................................

E-bost y cleient: .......................................................................................................................................................

Rhif ffôn y cleient: ....................................................................................................................................................

Dyddiad geni'r cleient: .............................................................................................................................................

Oedran y cleient wedi ei ddilysu gan ddeiliad y drwydded
(angen llofnod deiliad y drwydded a'r dyddiad): ........................................................................ Ydy/Nac ydy

Dyddiad cwblhau gan y cleient: ..............................................................................................................................

Dyddiad cwblhau gan riant/gwarcheidwad cyfreithiol (os yw'n berthnasol) ......................................................

## Manylion y Driniaeth – i'w gwblhau gan ddeiliad y drwydded

Dylid cynnwys:

- dyddiad(au) a hyd yr apwyntiadau,
- math a safle tyllu,
- manylion y gemwaith/gwrthrych a ddefnyddir (deunydd, maint, cyflenwr/gwneuthurwr),
- manylion cyngor ôl-ofal.

## Hanes meddygol y cleient

**Camau gweithredu:** Os atebir 'Ydw/Oes' mewn ymateb i unrhyw gwestiwn, cyfeiriwch at y Canllawiau Rheoli Ymgynghori â Chleient a thrafodwch y mater yn fanylach gyda'r cleient cyn gwneud penderfyniad ar yr hyn ddylai ddigwydd nesaf. Cofnodwch y drafodaeth a'r penderfyniad yn Adran 11.

| Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|
| **Ydych chi'n ffit ac yn iach i gael triniaeth heddiw?**<br>(peswch, annwyd, "teimlo'n anhwylus" ac ati) | YDW/NAC YDW |
| **Adran 1 – Cyflyrau'r galon** | |
| Oes gennych chi unrhyw gyflyrau ar y galon megis angina neu broblemau pwysedd gwaed? | OES/NAC OES |
| Oes gennych chi falf calon brosthetig/clefyd cynhenid y galon? | OES/NAC OES |
| Oes gennych chi reolydd calon wedi ei osod? | OES/NAC OES |
| **Adran 2 – Epilepsi** | |
| Oes gennych chi epilepsi? | OES/NAC OES |
| **Adran 3 – Anhwylderau ceulo gwaed** | |
| Oes gennych chi haemoffilia neu anhwylderau ceulo gwaed? | OES/NAC OES |
| Ydych chi'n cymryd gwrthgeulyddion i atal clotiau gwaed? | YDW/NAC YDW |
| **Adran 4 – Diabetes** | |
| Oes gennych chi ddiabetes? | OES/NAC OES |
| **Adran 5 – Cyflyrau croen a/neu greithiau** | |
| Oes gennych chi unrhyw broblemau croen megis soriasis neu ecsema/dermatitis? | OES/NAC OES |
| Oes gennych chi greithiau 'talpiog' (creithiau hypertroffig/celoid)? | OES/NAC OES |

| Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|
| **Adran 6 – Alergeddau** | |
| Ydych chi erioed wedi cael adwaith anaffylactig (angen mynd i'r ysbyty a/neu gael adrenalin)? | YDW/NAC YDW |
| Os YDW, beth achosodd hynny? ........................................ | |
| Oes gennych chi alergedd i latecs? | OES/NAC OES |
| Oes gennych chi unrhyw alergeddau hysbys i blastrau/hufenau/metelau/ïodin/pysgod cregyn/bwydydd/rhywbeth arall? | OES/NAC OES |
| Os OES, nodwch ba rai ........................................ | |
| **Adran 7 – Imiwnedd gwan** | |
| Ydych chi'n cymryd unrhyw feddyginiaeth sy'n effeithio ar eich system imiwnedd megis "triniaethau imiwnoataliedig" (e.e. triniaeth canser megis cemotherapi), steroidau dos uchel neu driniaeth a ddefnyddir ar gyfer cyflyrau llidiol. | YDW/NAC YDW |
| Os YDW, nodwch ba rai ........................................ | |
| **Adran 8 – Beichiogrwydd a bwydo ar y fron** | |
| Ydych chi'n feichiog neu'n bwydo ar y fron?<br>(tyllu'r deth/rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff) | YDW/NAC YDW |
| **Adran 9 – Pyliau o lewygu** | |
| Ydych chi'n dueddol o gael 'pyliau o lewygu'? | YDW/NAC YDW |
| Os YDW, nodwch beth sy'n achosi'r rhain ........................................ | |
| **Adran 10 – Gwybodaeth feddygol ychwanegol** | |
| Oes unrhyw beth arall na soniwyd amdano o'r blaen yr hoffech roi gwybod i'ch deiliad trwydded amdano? | OES/NAC OES |
| Os OES, rhowch fanylion<br>........................................<br>........................................ | |
| Ydych chi wedi defnyddio anesthetig argroenol cyn cael y driniaeth arbennig? – os YDW, rhowch fanylion y cynnyrch rydych wedi ei ddefnyddio i ddeiliad y drwydded:<br>........................................<br>........................................ | YDW/NAC YDW |

| Cwestiynau | Ymateb |
|---|---|
| **Adran 11 – Trafodaeth lle nodwyd cyflyrau meddygol** | |
| Cofnodwch yn gryno y drafodaeth, unrhyw gamau gweithredu a'r penderfyniad terfynol | |
| ........................................................................................................................................ | |
| ........................................................................................................................................ | |

## Datganiad

- [ ] Rwy'n deall ac yn cadarnhau bod deiliad y drwydded wedi rhoi esboniad llawn i mi o'r canlynol:
  - y broses o dyllu'r corff
  - y risgiau a'r gwrtharwyddion posibl sy'n gysylltiedig â'r driniaeth hon.
  - yr effeithiau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chael twll yn yr wyneb neu yn y gwddf (os yw hynny'n berthnasol).
- [ ] Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth rwyf wedi ei darparu am fy hanes meddygol a'm hoedran yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth ac nad wyf ar hyn o bryd o dan ddylanwad alcohol na chyffuriau.
- [ ] Rwy'n cadarnhau fy mod/nad wyf (**y testun i'w ddileu fel bo'n briodol**) wedi defnyddio anesthetig argroenol.
- [ ] Rwy'n deall y cyfarwyddiadau ôl-ofal a esboniwyd i mi ac rwy'n cadarnhau fy mod wedi cael gwybodaeth am ôl-ofal, gan gynnwys manylion cyswllt deiliad y drwydded.
- [ ] Rwy'n cytuno mai fy nghyfrifoldeb i yw dilyn y cyngor ôl-ofal a roddwyd i mi.
- [ ] Rwy'n datgan fy mod yn rhoi fy nghaniatâd llawn i driniaeth tyllu'r corff gael ei rhoi gan ddeiliad y drwydded a enwir.

**I'w lenwi gan y cleient***

Enw'r cleient (mewn llythrennau bras): ..........................................................................................................................

Llofnod y cleient: ..........................................................................................................................

Dyddiad: ..........................................................................................................................

* Pan fo'r cleient yn blentyn dan oed nad yw'n gallu darparu ei gydsyniad ei hun, mae'r adran llofnod y rhiant/gwarcheidwad/gofalwr yn berthnasol.

## I'w lenwi gan y rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol/gofalwr (lle bo'n berthnasol)[#]

Enw'r rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol/gofalwr (mewn llythrennau bras): ..........................................................

Llofnod y rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol/gofalwr: ..........................................................................................

Dyddiad: ..........................................................................................................................................................

[#] Mae tyllu rhannau personol o'r corff wedi ei wahardd ar gyfer unrhyw berson o dan 18 oed. Felly, nid yw'r adran lofnodi uchod yn berthnasol. Nid yw'n berthnasol ychwaith os yw unrhyw un o dan 18 oed sydd am gael twll mewn unrhyw ran o'r corff, nad yw'n rhan bersonol, yn gallu rhoi ei gydsyniad ei hun.

Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle bydd angen i gleient dros 18 oed gael cymorth unrhyw un o'r bobl uchod er mwyn deall gofynion y driniaeth neu'r ôl-ofal (megis mewn achosion o anabledd). Caiff deiliad y drwydded ofyn i'r oedolyn sydd wedi dod gyda'r cleient lofnodi i gadarnhau ei fod wedi deall yr wybodaeth a roddwyd, NID ei fod yn cydsynio i'r driniaeth ar ran y cleient.

## I'w lenwi gan ddeiliad y drwydded

Enw deiliad y drwydded (mewn llythrennau bras): ..........................................................................................

Llofnod deiliad y drwydded: ..............................................................................................................................

Dyddiad: ..........................................................................................................................................................

Lle mae'r cleient wedi defnyddio anesthetig argroenol – dylai deiliad y drwydded ddileu'r datganiad nad yw'n berthnasol:

Rydw i, deiliad y drwydded, yn gallu cadarnhau fy mod yn fodlon bod yr anesthetig argroenol a ddefnyddiwyd gan y cleient wedi ei gymeradwyo a'i awdurdodi gan MHRA.

Nid wyf i, deiliad y drwydded, yn gallu cadarnhau bod yr anesthetig argroenol a ddefnyddiwyd gan y cleient wedi ei gymeradwyo a'i awdurdodi gan MHRA. Felly, bydd yr apwyntiad yn cael ei aildrefnu.

# Atodiad 4 – Rheoli Ymgynghori â Chleient

## Rheoli Ymgynghori â Chleient: Canllawiau ar gyfer Tyllu'r Corff

**Camau gweithredu: Gellir defnyddio'r 'cofnod canlyniad ymgynghoriad â chleient' a ddarperir yn Atodiad 5, neu fersiwn wedi ei haddasu, ochr yn ochr â'r atodiad hwn mewn achosion lle mae angen ystyried a yw'n ddiogel bwrw ymlaen pan fydd y cleient wedi nodi materion iechyd sy'n bodoli eisoes.**

## Diben

Mae'r canllawiau hyn i'ch helpu i adolygu ymatebion y cleient yn yr ymgynghoriad ac i benderfynu ar y camau gweithredu priodol.

### Oed y cleient

Lle mae unrhyw amheuaeth bod eich cleient o dan 18 oed pan fydd yn cael y driniaeth rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, rhaid i ddeiliad y drwydded ofyn am brawf o oedran. Gall hyn fod ar ffurf pasbort, trwydded yrru ffotograffig neu gerdyn adnabod derbyniol (cerdyn sy'n cynnwys hologram PASS). Rhaid cadw copi gyda ffurflen ymgynghori'r cleient.

### Hanes meddygol y cleient

Gallai gofyn cwestiynau ychwanegol yr ystyrir nad ydynt yn angenrheidiol gael ei ystyried yn wahaniaethu, er enghraifft, mae'n anghyfreithlon trin rhywun yn llai ffafriol oherwydd ei statws HIV o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Os bydd deiliaid trwydded yn cymryd rhagofalon atal a rheoli heintiau safonol wrth roi'r driniaeth tyllu'r corff, bydd hynny'n lliniaru'r risg o haint microbaidd.

## Adran 1 – Cyflyrau ar y galon

Yn dioddef o unrhyw gyflyrau ar y galon (e.e. angina/problemau pwysedd gwaed/falf calon brosthetig/clefyd falf y galon).

Mae hyn er mwyn gwirio sefydlogrwydd symptomau megis poen yn y frest a diffyg anadl.
Dylai cleientiaid sicrhau eu bod yn cymryd eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd ac yn dod ag unrhyw driniaeth gyda nhw (megis chwistrellau ac anadlwyr).

Mae dros ddeugain math gwahanol o glefyd cynhenid y galon, a gall tyllu'r corff eich rhoi mewn perygl o haint sy'n cynyddu eich risg o endocarditis bacteriol (haint ar leinin y galon a falfiau'r galon). O bosibl, gall micro-organebau (germau) dyfu o amgylch safle'r tyllu a theithio yn y gwaed i'r galon.

Mae micro-organebau yn bresennol ar y croen fel arfer, mae torri'r croen yn caniatáu i facteria fynd i mewn i'r gwaed neu gall micro-organebau gael eu cyflwyno drwy offerynnau neu ddwylo halogedig. Mae endocarditis yn gyflwr sy'n peryglu bywyd. Ar adeg cynhyrchu'r ddogfen ganllaw hon mae'r achosion yn y DU yn cynyddu, ac mae canran sylweddol ohonynt yn cael eu hachosi gan Staffylococi sy'n byw ar y croen.

Gweler y dolenni isod am ragor o wybodaeth:

**Endocarditis – BHF**

**Gofalu am Blant a Phobl Ifanc â Chyflyrau ar y Galon**

**Endocarditis – Y GIG**

## Adran 2 – Epilepsi

Mae epilepsi yn sbectrwm; dylid gofyn i gleientiaid:

1) Sut mae eu hepilepsi yn ymgyflwyno (beth sy'n digwydd)

2) Amlder ffitiau

3) Unrhyw arwyddion rhybudd cyn ffit

Nid oes unrhyw wrtharwyddion o ran cael triniaeth tyllu'r corff i bobl ag epilepsi, ond efallai y bydd cleientiaid a deiliaid trwydded am ystyried y risg pe bai ffit yn digwydd wrth gael triniaeth. Dylai deiliaid trwydded fod yn ymwybodol o beth i'w wneud yn ystod ffit. Mae'n bwysig aros gyda'r cleient i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn gwella. Os ydych yn poeni, gallwch alw am ambiwlans.

Rhagor o wybodaeth: Gweler y dolenni:

**Epilepsy Action**

**Epilepsy Society**

## Adran 3 – Anhwylderau ceulo gwaed

Cynghorir unigolion ag anhwylderau gwaedu difrifol i ymgynghori â'u meddyg ymgynghorol am gyngor, gan fod triniaethau mewnwthiol yn gallu arwain at risg o waedu gormodol a chymhlethdodau.

Defnyddir gwrthgeulyddion i arafu pa mor gyflym mae gwaed yn ceulo, ac fe'u defnyddir i drin cyflyrau megis thrombosis gwythiennau dwfn/embolism ysgyfeiniol neu ffibriliad atrïaidd. Ni ddylid atal gwrthgeulyddion gan fod risg o geulo gwaed. Gall cleientiaid ar y mathau hyn o feddyginiaeth brofi cleisio neu waedu. Efallai y bydd risg ychwanegol o haint hefyd. Dylai cleientiaid siarad â'u meddyg teulu neu ymgynghorydd meddygol am gyngor a darparu nodyn ar gyfer deiliad y drwydded.

## Adran 4 – Diabetes

Dylai'r cleient gymryd rhagofalon i osgoi siwgr gwaed isel drwy ei system fonitro arferol. Dylai ystyried hyd y driniaeth a dod â byrbrydau/meddyginiaeth briodol os oes angen.

Efallai y bydd pobl â diabetes hefyd yn cael problemau o ran y croen yn gwella a risg o haint. Dylid osgoi tyllu ardaloedd sy'n cael eu defnyddio fel safleoedd pigiad (er enghraifft, ardal y stumog) fel y gallwch nodi'n glir arwyddion o haint y gellir eu priodoli i'r driniaeth tyllu'r corff, ac nid safle pigiad. Dylid osgoi ardaloedd lle mae'r cleient wedi colli teimlad hefyd gan y gall symptomau haint gael eu cuddio.

## Adran 5 – Cyflyrau croen a/neu greithiau

Dim ond ar groen cyflawn nad yw'n cael ei effeithio gan ecsema neu soriasis neu ddermatitis y dylid rhoi triniaeth tyllu'r croen. Gydag ecsema yn benodol, mae cleientiaid yn aml yn cario mwy o facteria ar y croen a byddai tyllu mewn ardal yr effeithir arni yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyflwyno bacteria neu feirysau i'r croen. Byddai croen sy'n cael ei effeithio gan soriasis yn cyflwyno risg fymryn yn uwch o haint.

Mae soriasis yn gyffredin ac yn bresennol mewn 2% o'r boblogaeth. Ymhlith cleientiaid sydd â phroblemau croen fel soriasis, mae siawns o "koebnerisation". Mae hyn yn golygu, os oes gan gleient soriasis (unrhyw le), mae tebygolrwydd y bydd soriasis yn digwydd lle gwnaed y tyllu oherwydd trawma ffisegol i'r croen. Dylid trafod hyn gyda'r cleient, fel ei fod yn ymwybodol o risgiau a fflerio.

Mae celoidau yn ardaloedd talpiog a achosir gan ordyfiant meinwe craith.

Gall llid a elwir yn granwloma ffurfio o amgylch yr ardal lle rhoddwyd triniaeth tyllu'r corff ac, yn y sefyllfa hon, dylech gynghori cleientiaid i weld eu meddyg teulu.

Os yw cleientiaid yn cymryd meddyginiaeth fel Isotretinoin/Roaccutane a ddefnyddir ar gyfer acne, dylid gohirio'r driniaeth am chwe mis ar ôl cwblhau'r cwrs llawn o driniaeth i osgoi'r posibilrwydd o greithio.

## Adran 6 – Alergeddau

Ni ddylid rhoi triniaeth tyllu'r corff i unrhyw un sydd ag anaffylacsis i unrhyw fetelau a ddefnyddir yn y driniaeth.

Dylai deiliaid trwydded fod yn ymwybodol y gall hufenau fod ag ychwanegion sy'n cynnwys olewau naws a all gyfrannu at adweithiau alergaidd a llid y croen.

Nid yw clefyd y gwair neu asthma yn wrtharwydd o dyllu'r corff. Dylai cleientiaid reoli symptomau yn unol â chyfarwyddwyd eu meddyg teulu.

## Adran 7 – Imiwnedd gwan

Perthnasedd statws ag imiwnedd gwan yw'r risg gynyddol gysylltiedig o haint croen.

## Adran 8 – Beichiogrwydd a bwydo ar y fron

Nid yw beichiogrwydd a bwydo ar y fron yn wrtharwyddion ar gyfer tyllu'r corff; fodd bynnag, ni fyddai'n ddoeth cael triniaeth tyllu'r deth lle gallai hyn ymyrryd â bwydo ar y fron. Yn yr un modd, dylid osgoi tyllu organau cenhedlu os mai'r bwriad yw rhoi genedigaeth drwy'r wain. Dylid ystyried safle'r tyllu a'r ffaith y gall croen ymestyn yn ystod beichiogrwydd. Mae'n bosibl y bydd y cleient yn dymuno gofyn am gyngor ei bydwraig.

## Adran 9 – Pyliau o lewygu

Gofalwch fod y cleient yn adrodd unrhyw sbardunau i ddeiliad y drwydded ac, os yw cleient yn teimlo ei fod yn mynd i lewygu, gall orwedd yn fflat gyda'i goesau wedi eu codi. Hefyd, ni ddylai godi'n rhy gyflym.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant cymorth cyntaf drwy ddilyn y ddolen isod:

**St John Ambulance Cymru**

## Adran 10 – Gwybodaeth feddygol ychwanegol

Os yw'r cleient yn darparu gwybodaeth feddygol ychwanegol y mae deiliad y drwydded yn poeni y gallai gyflwyno gwrtharwydd, dylai deiliad y drwydded gynghori'r cleient i ofyn am gyngor gan ei feddyg teulu neu ymgynghorydd meddygol cyn i'r driniaeth gael ei rhoi.

Nid yw BBVs, asthma na chlefyd y gwair yn wrtharwyddion ar gyfer triniaeth tyllu'r corff.

Gall y cleient ddarparu gwybodaeth am roi anesthetig argroenol arno ei hun. Dylai deiliad y drwydded fodloni ei hun bod y cynnyrch a ddefnyddiwyd gan y cleient wedi ei gymeradwyo a'i awdurdodi gan **MHRA**.

# Atodiad 5 – Ymgynghoriad â chleient: cofnod o'r canlyniad

**Gall deiliad y drwydded defnyddio'r templed hwn, neu fersiwn wedi ei haddasu ohono, os yw'n gwrthod rhoi'r driniaeth arbennig benodol i'r cleient oherwydd cyflwr/cyflyrau iechyd y cleient. Gweler paragraff 5 o Amod Trwyddedu Cyffredinol Mandadol 3 am esboniad o ddiben y templed hwn a sut i'w ddefnyddio.**

## TEMPLED: Cofnod o Ganlyniad Ymgynghoriad â Chleient

Deiliad y drwydded:

- enw
- cyfeiriad gweithle
- cyfeiriad e-bost
- rhif ffôn

**Enw a chyfeiriad neu ddyddiad geni'r cleient**

Fe gawsoch ymgynghoriad ar gyfer tyllu'r corff/rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

ar [dyddiad]..........................................................................................................................................................

Manylion y driniaeth tyllu'r corff:

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

..........................................................................................................................................................

Fe ddywedoch chi fod gennych [nodwch y cyflwr meddygol/symptomau/pryder]

..........................................................................................................................................................

A/neu eich bod yn cymryd/wedi cael presgripsiwn ar gyfer .............................................................................
[manylion y feddyginiaeth].

Yn seiliedig ar yr wybodaeth iechyd honno a'r pryderon sydd gennyf, dywedais nad wyf yn fodlon bwrw ymlaen â'r driniaeth tyllu'r corff/rhan bersonol o'r corff. Rwy'n fodlon ailystyried fy mhenderfyniad os gallwch chi roi i mi naill ai:

(i) **cyngor ysgrifenedig neu dystiolaeth** briodol gan eich meddyg teulu* neu ymgynghorydd meddygol* nad yw'r driniaeth benodedig yn achosi risg i chi oherwydd y materion meddygol yr wyf wedi eu nodi uchod, neu

(ii) **cyngor ysgrifenedig** gan eich meddyg teulu* neu ymgynghorydd meddygol* yn nodi, er gwaethaf y pryderon iechyd y cyfeiriwyd atynt, nad oes unrhyw reswm pam na ellir rhoi'r driniaeth.

Llofnod deiliad y drwydded: ........................................................................................ Dyddiad: ..................................

* **NODER:** Nid yw'n ofynnol i feddygon teulu y GIG, meddygon teulu preifat nac ymgynghorwyr meddygol ddarparu cyngor ysgrifenedig o'r math hwn a gallant wrthod gwneud hynny. Dylai unrhyw un sy'n ymgynghori â meddyg teulu preifat sicrhau bod eu meddyg dewisol wedi ei gofrestru gyda'r **Cyngor Meddygol Cyffredinol** cyn cysylltu ag ef.

# Atodiad 6 – Taflen Ôl-ofal Tyllu'r Corff

## Arwyddion o haint

Mae'n bwysig dilyn y cyngor ôl-ofal a roddwyd i chi. Mae arwyddion o lid yn rhan o iachâd arferol yn y 0-3 diwrnod cyntaf.
Mae arwyddion a symptomau haint y safle tyllu yn cynnwys:

- Chwyddo a chochni.
- Yr ardal yn teimlo'n gynnes.
- Poen/tynerwch.
- Rhedlif – crawn yn dod o'r clwyf.
- Teimlo'n sâl neu fod â thymheredd uchel.

Mae'n bwysig cysylltu â deiliad y drwydded neu geisio sylw meddygol os byddwch yn datblygu unrhyw un o'r arwyddion neu'r symptomau hyn i ddiystyru haint.

## Cymhlethdodau eraill

**Adwaith alergaidd** – gall ddigwydd oherwydd rhai mathau o emwaith/gwrthrychau sy'n cynnwys Nicel, Cobalt, Copr a Chromiwm sydd i'w gweld mewn gemwaith cosmetig.

**Rhwygo** – y gwrthrych neu'r gemwaith yn dal ar rywbeth.

**Mewnblannu** – mae hyn yn digwydd pan fo postyn neu roden y gemwaith yn rhy fyr, a'r croen yn tyfu drosto neu drosti.

**Mudo** – mae hyn yn digwydd pan fydd y gwrthrych yn y twll yn symud o'i leoliad.

**Tyllu cartilag** – gall y rhain gymryd mwy o amser i wella gan fod y cyflenwad gwaed yn brin.

**Manylion cyswllt:**

## Taflen Ôl-ofal Tyllu'r Corff

## Gofalu am yr ardal ar ôl Tyllu'r Corff

**Tra bod ardal y tyllu'n gwella, mae'n bwysig ei chadw'n lân**. Mae hyn yn cynnwys golchi'ch dwylo gyda sebon a dŵr pan fyddwch chi'n cyffwrdd â'r ardal. Gellir trosglwyddo germau o'ch dwylo i'ch safle tyllu.

Bydd yr amser y mae'n ei gymryd i wella yn dibynnu ar y lleoliad a'r math o dyllu. Gall croen sydd newydd ei dyllu deimlo'n dyner, cosi ac edrych yn goch.

- ✓ **Cadwch yr ardal yn lân**. Glanhewch ardal y tyllu ddwywaith y dydd gyda hydoddiant halwynog wedi ei brynu neu cymysgwch 1/4 llwy de o halen gyda gwydraid bach o ddŵr cynnes a'i roi ar yr ardal gyda rhwyllen. Bydd hyn yn meddalu unrhyw gramennau. Gellir defnyddio rhwyllen mewn dŵr cynnes hefyd fel cywasgiad cynnes. Gall gwlân cotwm raflo, a gall darnau gael eu dal mewn gemwaith neu wrthrychau. Gallwch hefyd garglo gyda'r hydoddiant halen ar gyfer triniaethau tyllu yn y geg.
- ✓ **Gofalwch fod y gemwaith wedi ei gosod yn ddiogel**. Gwiriwch fod y gwrthrych neu'r gemwaith wedi ei sgriwio'n dynn.
- ✓ **Cadwch yr ardal yn sych**. Sychwch yr ardal gan ddefnyddio tywel papur ffres a glân i'w batio'n sych a pheidiwch â rhannu tywelion.
- ✗ **Peidiwch â thorheulo**. Dylech osgoi gwelyau haul am y 2 wythnos gyntaf.
- ✗ **Peidiwch â nofio**. Dylech osgoi nofio am 24 awr.
- ✗ **Peidiwch â gwisgo dillad tynn**. Mae hyn er mwyn atal dillad rhag glynu wrth safle'r clwyf, neu rwbio yn ei erbyn. Dylech osgoi cysgu arno gymaint â phosibl a chymryd gofal i osgoi taro'r ardal.
- ✗ **Peidiwch â chwarae gydag ardal y tyllu**. Peidiwch â phigo na chwarae gydag ardal y tyllu na phigo unrhyw grach neu gramennau.

# Atodiad 6 – Taflen Ôl-ofal rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

## Arwyddion o haint

Mae'n bwysig dilyn y cyngor ôl-ofal a roddwyd i chi. Mae arwyddion o lid yn rhan o iachâd arferol yn y 0-3 diwrnod cyntaf. Mae arwyddion a symptomau haint y safle tyllu yn cynnwys:

- Chwyddo a chochni.
- Yr ardal yn teimlo'n gynnes.
- Poen/tynerwch.
- Rhedlif – crawn yn dod o'r clwyf.
- Teimlo'n sâl neu fod â thymheredd uchel.

Mae'n bwysig cysylltu â deiliad y drwydded neu geisio sylw meddygol os byddwch yn datblygu unrhyw un o'r arwyddion neu'r symptomau hyn i ddiystyru haint.

## Cymhlethdodau eraill

**Adwaith alergaidd** – gall ddigwydd oherwydd rhai mathau o emwaith/gwrthrychau sy'n cynnwys Nicel, Cobalt, Copr a Chromiwm sydd i'w gweld mewn gemwaith cosmetig.

**Rhwygo Croen** – y gwrthrych neu'r gemwaith yn dal ar rywbeth. Gall hefyd gael ei achosi gan droelli'r gwrthrych tra ei fod yn sych.

**Oedi** unrhyw weithgarwch rhywiol nes bod y safle'n sych neu wedi gwella.

**Defnyddiwch** amddiffyniad rhwystr (condomau) i osgoi heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

**Tyllu'r tafod –** Cynnal hylendid y geg da. Defnyddiwch frwsh dannedd newydd, a brwsio eich tafod yn ysgafn wrth frwsio eich dannedd. Yfwch ddigon o ddŵr oer wrth i'r ardal wella. Dylech osgoi bwydydd sbeislyd, alcohol, ysmygu, rhyw geneuol neu unrhyw gusanu a all halogi yn ystod y cyfnod gwella. Ar ôl bwyta bwyd, rinsiwch eich ceg â dŵr.

**Manylion cyswllt:**

## Taflen Ôl-ofal rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

## Gofalu am ardal y tyllu mewn rhan bersonol o'r corff

**Tra bod yr ardal yn gwella, mae'n bwysig ei chadw'n lân**. Mae'n hanfodol golchi eich dwylo gyda sebon a dŵr cyn i chi gyffwrdd ag ardal y tyllu neu ei glanhau. Gellir trosglwyddo germau o'ch dwylo i'ch safle tyllu. Nid oes angen i chi ddefnyddio unrhyw sebonau gwrthfacterol.

Bydd hyd y cyfnod gwella'n dibynnu ar y lleoliad a'r math o dyllu. Gall croen sydd newydd ei dyllu deimlo'n dyner, cosi ac edrych yn goch.

**Argymhellir y gofal bob dydd canlynol:**

- ✓ **Cadwch yr ardal yn lân**. Glanhewch ardal y tyllu ddwywaith y dydd gyda hydoddiant halwynog wedi ei brynu neu cymysgwch 1/4 llwy de o halen gyda gwydraid bach o ddŵr cynnes a'i roi ar yr ardal gyda rhwyllen neu socian yr ardal mewn cynhwysydd glân. Bydd hyn yn meddalu unrhyw gramennau. Dylech osgoi gwlân cotwm sy'n gallu rhaflo a gall darnau gael eu dal mewn gemwaith neu wrthrychau.
- ✓ **Gofalwch fod y gemwaith wedi ei gosod yn ddiogel**. Gwiriwch fod y gwrthrych neu'r gemwaith wedi ei sgriwio'n dynn.
- X **Cadwch yr ardal yn sych**. Sychwch yr ardal gan ddefnyddio tywel papur ffres a glân i'w batio'n sych a pheidiwch â rhannu tywelion.
- X **Peidiwch â thorheulo**. Dylech osgoi gwelyau haul am y 2 wythnos gyntaf.
- X **Peidiwch â nofio**. Dylech osgoi nofio am 24 awr.
- X **Peidiwch â gwisgo dillad tynn**. Mae hyn er mwyn atal dillad rhag glynu wrth safle'r clwyf, neu rwbio yn ei erbyn. Dylech osgoi cysgu arno gymaint â phosibl a chymryd gofal i osgoi taro'r ardal.
- X **Peidiwch â chwarae gydag ardal y tyllu**. Peidiwch â phigo na chwarae gydag ardal y tyllu na phigo unrhyw grach neu gramennau.

# Atodiad 7 – Templed ar gyfer Cofrestr Ddigwyddiadau

Gall deiliad y drwydded ddefnyddio'r templed hwn ar gyfer cofrestr ddigwyddiadau i gofnodi a chynnal cofrestr o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r driniaeth arbennig y mae wedi ei drwyddedu i'w rhoi.

Mae "digwyddiad" yn golygu digwyddiad, boed yn real neu'n honedig, sydd â'r potensial i achosi niwed i iechyd dynol ac sy'n gysylltiedig â rhoi triniaeth arbennig. Gall hyn gynnwys galw cynnyrch yn ôl, methiant cyfarpar megis awtoclaf, cwynion cwsmeriaid ynghylch arferion hylendid neu wasanaeth gwael a honiadau o haint neu afiechyd arall.

| Rhif y digwyddiad | Dyddiad y digwyddiad | Manylion y digwyddiad | Enw a manylion cyswllt y person a roddodd wybod am y digwyddiad | Camau a gymerwyd gan ddeiliad y drwydded (gan gynnwys y dyddiad) |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |